# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | |
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 5 |
| 5 - Strategaeth Arbedion | 11 |
| 6 - Adroddiad Cynnydd Cynllun Integredig Sengl Gwynedd ac Ynys Môn | 16 |
| Atodiad | 33 |
| 7 - Blaen Raglen Waith y Pwyllgor 2013-2014 | 70 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00AM, DYDD IAU, 16 IONAWR, 2014**
**10.00AM, THURSDAY, 16 JANUARY, 2014**

Lleoliad / Location

***SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**

*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 8/01/14)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors

Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gareth Thomas

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors

Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor

Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor

June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Aelodau eraill a wahoddir / Other invited members
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – eitem / item 5
Y Cynghorydd / Councillor Dyfed Edwards – eitem / item 6

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw’r amseroedd a nodir isod*

## 5. STRATEGAETH ARBEDION
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

*10.10am – 11.05am*

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN INTEGREDIG SENGL GWYNEDD AC YNYS MÔN
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyried adroddiad yr Arweinydd (copi ynghlwm).

*11.05am – 11.50am*

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2013 - 2014

Cyflwyno’r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi ynghlwm).

*11.50am – 12.00pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 14.11.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles W.Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**

Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:-**

Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol)
Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol)
Stephen Barnard (Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Simon Glyn a Michael Sol Owen; Y Cynghorwyr Peredur Jenkins a John Wynn Jones (Aelodau Cabinet).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd yr angen i raglennu gwaith y pwyllgor dros y misoedd nesaf.

Nodwyd bod y Cadeirydd yn cael anhawster gyda dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor a'r cyfarfodydd paratoi rhwng nawr a diwedd ei gadeiryddiaeth, a chan ei fod yn awyddus i barhau yn y gadair hyd ddiwedd ei dymor, byddai'n rhaid newid dyddiadau cyfarfodydd Ionawr a Mawrth o'r pwyllgor a'r cyfarfod paratoi ym mis Chwefror.

Nodwyd yn ychwanegol nad oedd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd ar gael i gadeirio'r cyfarfod paratoi nesaf am 1.00pm ar 26 Tachwedd a chytunwyd, yn ddarostyngedig bod ystafell a chyfieithydd ar gael, i symud y cyfarfod i 10.00am i alluogi i'r Is-gadeirydd fod yn bresennol.

Mynegwyd siomedigaeth gan aelod nad oedd y Cadeirydd yn gallu presenoli ei hun yn y cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu yn cadarnhau trefniadau'r cyfarfod paratoi nesaf gyda'r aelodau ac yn cysylltu â hwy ymhellach gyda dyddiadau newydd ar gyfer cyfarfodydd Ionawr a Mawrth o'r pwyllgor a'r cyfarfod paratoi ym mis Chwefror.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2013 fel rhai cywir.

**4. GWYNEDD AMDANI!**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wyn Jones**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn gofyn i'r pwyllgor:-

- Ystyried cynnwys yr atodiadau i'r adroddiad a chwestiynu yn ôl yr angen;
- Ystyried sut orau i annog dinasyddion Gwynedd i gofrestru ar gyfer Cynllun Cyd Cymru;
- Ystyried cofrestru fel Partner i Cyd Cymru.

Gosododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu'r cyd-destun ac ymhelaethodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ar y cefndir i hyn oll drwy nodi:-

- Bod hwn yn brosiect newydd iawn ac nad oedd y Grŵp Prosiect wedi cyfarfod eto.
- Po fwyaf o unigolion sy'n cofrestru gyda Cyd Cymru, y rhataf fydd biliau ynni pawb.
- Bod Energy Helpline wedi ennill y tendr i hwyluso'r cynllun ac i helpu trigolion i gofrestru.
- Bod Energy Helpline yn symud y gwaith yn ei flaen mewn tri cham. Gweithredwyd y cam cyntaf erbyn hyn ac 'roedd modd i unrhyw un gofrestru gyda Cyd Cymru bellach.
- Byddai'r ail gam, ynghyd ag asesiad o'r cam cyntaf, yn digwydd yn Ionawr / Chwefror. Bwriedid ceisio dod â Gwynedd i mewn i'r ail gam, yn y gobaith y byddai rhywfaint o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r cam cyntaf erbyn hynny fel y gellid asesu priodoldeb symud i'r cyfeiriad yma.
- Bod y cynllun hwn yn dod o dan grŵp o brosiectau sy'n cael eu harwain gan y Prif Weithredwr o dan yr emblem 'Cyngor Ni'.
- Ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar hyn o bryd ac y byddai yna lawer mwy i'w adrodd ym mis Ionawr / Chwefror.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd mai rôl y Cyngor fyddai gweithio mewn partneriaeth i annog cymaint â phosib' o drigolion y sir i brynu eu hynni drwy'r cynllun hwn, yn hytrach na mynd at y farchnad agored.
- Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth Adnoddau Dynol y byddai'n tybio bod modd i'r Cyngor, fel sefydliad, brynu i mewn i'r cynllun hwn, ond byddai'n rhaid gwirio hynny gyda swyddogion ynni'r Cyngor. Ychwanegodd y Pennaeth Economi a Chymuned fod yr Uned Gaffael yn edrych ar ddulliau o gael gwell bargen i'r Cyngor o safbwynt pris ynni, er nad drwy'r prosiect penodol yma efallai.
- Nodwyd bod hwn yn gynllun gwerth chweil a syml yn y bôn.

- Holwyd a fyddai ysgolion yn rhan o gynllun Gwynedd. Awgrymodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu y gellid gofyn y cwestiwn i'r Aelod Cabinet Adnoddau. Nododd y Cadeirydd mai pwrpas yr eitem dan sylw oedd edrych ar bobl sydd ar y tariff domestig, er y deellid bod ymdrechion ar y gweill i geisio cael bargen debyg ar gyfer pobl sy'n prynu ar dariff busnes, yn cynnwys ysgolion, y Cyngor ei hun, ayb.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn gwneud y cam o gofrestru mor rhwydd â phosib' i bobl, yn enwedig pobl hŷn.
- Mynegwyd pryder o ddeall gan y Pennaeth Economi a Chymuned fod y cynllun wedi'i gyfyngu i bobl ar fudd-daliadau, gan fod yna bobl mewn gwaith, ond ar gyflog isel, sydd mewn gwaeth sefyllfa'n ariannol. Petai'r cynllun yn agored i bawb yn ddiwahân, byddai hefyd yn rhatach i bawb a byddai grym prynu pobl gyfoethog yn helpu'r llai ffodus. Awgrymwyd y dylid anfon neges at Cyd Cymru yn datgan bod eu llenyddiaeth yn gamarweiniol gan ei fod yn hyrwyddo'r cynllun i bawb. Dylid hefyd anfon neges gref i'r mudiad y dylent dderbyn pawb ar y cynllun ac na ddylid profi modd gan fod hynny'n cymhlethu'r sefyllfa ac yn annog pobl i beidio cofrestru.
- Awgrymwyd y dylid mynd ati ar unwaith i greu tudalen ar wefan y Cyngor yn egluro'n glir a syml beth yw'r cynllun a'r buddion ac yn ymgorffori dolen i'r ffurflen gofrestru ar wefan Cyd Cymru. Dylid gadael i'r aelodau wybod pan fo'r dudalen wedi ymddangos ar y wefan fel y gallent gael y neges allan i'w hetholwyr, a dylai'r sawl sydd heb fynediad i'r we gael eu cynorthwyo i gofrestru trwy ddulliau eraill, e.e. dros y ffôn.
- Mewn ymateb i awgrym bod y cynllun hwn yn sgiwio'r farchnad, atebodd y Pennaeth Economi a Chymuned fod hwn yn fater cymhleth, ond bod cyfle yma i wneud gwahaniaeth i aelwydydd am y tair blynedd nesaf a dylid manteisio ar yr ymgyrch yma tra bo'r drafodaeth ehangach ynglŷn â chost ynni yn digwydd.
- Nodwyd bod angen sicrhau bod yr holl asiantaethau yng Ngwynedd yn rhoi'r un neges allan a bod y neges honno'n un syml.
- Gofynnwyd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol ddiweddaru'r pwyllgor ar waith y Grŵp Prosiect yn dilyn asesiad o'r cam cyntaf.

**5. GWEITHLU'R CYNGOR**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

(A) Arolwg Ymgysylltu Staff 2013

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn ar ganlyniadau'r arolwg staff diweddar.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder bod morâl y staff yn isel a chodwyd cyfres o gwestiynau ynglŷn â sut y cafodd yr arolwg ei gynnal. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nad mesur morâl oedd diben yr arolwg, eithr mesur ymgysylltiad, sef sut mae'r staff yn bwrw iddi i gydweithio gyda'r Cyngor i roi'r gorau i bobl Gwynedd. Nododd fod yr arolwg yn agored i bawb, ac eithrio staff ysgolion. Gwnaed ymdrech lew eleni i geisio cyrraedd y llaw weithwyr gan mai dyma'r grŵp sy'n lleiaf tebygol o lenwi holiadur. Nododd ymhellach na ellid casglu bod yna fwy o anfodlonrwydd ymhlith staff rhai adrannau gan fod cymaint o gwestiynau mor wahanol i'w gilydd yn cael eu gofyn. O safbwynt rheolwyr, nododd fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn dangos bod yr hyfforddiant a'r datblygiad a gawsant wedi bod yn

llwyddiannus. Fodd bynnag, o safbwynt arweinyddiaeth, nid oedd y staff yn teimlo bod negeseuon strategaeth y Cyngor yn glir, ond 'roedd yna raglenni ar y gweill i geisio unioni hyn. Nododd ymhellach fod y penderfyniad i ddefnyddio arolwg Times Best Companies wedi bod yn un uchelgeisiol iawn, ond 'roedd y Cyngor yn awyddus i geisio gosod ei hun i fyny yn erbyn y goreuon yn y wlad, yn gyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat.

- Awgrymwyd mai'r ymgysylltu sy'n effeithio ar y morâl yn aml.
- Croesawyd y rhaglen waith i ddatrys y materion a godwyd yn yr arolwg.
- Gwnaed cais i'r aelodau dderbyn copi o ganlyniadau pob arolwg ymgysylltiad staff o hyn allan.
- Croesawyd y ffaith bod y Cyngor yn edrych ar ôl ei staff.

(B) Rheoli Salwch

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol i'r Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ar Absenoldebau Salwch 2012-13.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r categori salwch '*Arall'*, nododd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol yr amheuid bod llawer o straen yn cael ei guddio o dan y pennawd hwn gan nad oedd pobl yn awyddus i ddatgan eu bod dan straen. Ymhelaethodd ar ymdrechion y Cyngor i ganolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth staff o'r dulliau a thechnegau i osgoi / ymdrin â straen. Nododd hefyd nad oedd pobl yn siŵr weithiau pa gategori i'w ddefnyddio a'u bod, felly, yn dueddol o osod eu salwch o dan '*Arall'*. Fodd bynnag, 'roedd ymgyrch ar y gweill i ofyn i bobl nodi union natur y salwch fel bod modd i'r gweinyddwr adrannol, sy'n fwy cyfarwydd â'r categorïau, ei nodi o dan y math salwch cywir.
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol edrych ar dabl perfformiad 2012-13 yn ôl adran unigol (tudalen 2 o'r adroddiad) a'r tabl mathau o salwch (tudalen 3) fel grid er mwyn gweld oes yna gyflyrau penodol yn digwydd mewn adrannau penodol. Atebodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod hyn yn cael ei wneud, er nad yn ffurfiol er mwyn dadansoddi'n fanwl, a chytunodd y gellid datblygu hyn ymhellach.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nad oedd y Cyngor hwn erioed wedi defnyddio technegau gwyliadwriaeth i fesur salwch.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â '*Salwch Llun a Gwener'*, ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ar ymdrechion y prosiect lleihau absenoldebau, ple bo swyddogion personél, ymgynghorwyr iechyd galwedigaethol a rheolwyr yn y gwasanaethau yn cyd-weithio i reoli absenoldebau a hybu iechyd a lles yn gyffredinol, ynghyd â'r trefniant o gynnal paneli medrusrwydd ar sail afiechyd.
- Pwysleisiwyd y byddai'n well gweld y ffigurau absenoldeb yn cynyddu na bod gofalwyr cartref, sy'n dioddef o anwyd, ac ati, yn dal i fynd i'r gwaith ac yn trosglwyddo heintiau i'r bobl fregus sydd dan eu gofal. Awgrymwyd cynnwys categori ychwanegol ar gyfer y math hwn o sefyllfa. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod rhaglen hybu iechyd a lles y Cyngor yn canolbwyntio llawer ar staff yn y maes gofal. Nid beirniadu pobl am fod yn absennol oedd y bwriad, ond ceisio bod yn gynhaliol a gwella safon eu hiechyd.

(C) Swyddogion yn Ymddeol a Dychwelyd

Cyflwynwyd – gwybodaeth am y flwyddyn 2012-13 a'r cymal a fabwysiadwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Bolisi Tâl Blynyddol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i sylw bod y ffigurau'n ymddangos yn isel iawn, nododd y Pennaeth Adnoddau Dynol y derbyniwyd y ffigurau gan yr Uned Bensiynau, sydd â gwybodaeth am bob unigolyn sydd wedi gadael y Cyngor, a bod y swyddogion wedi mynd drwy'r rhestr i weld a oedd unrhyw un wedi dychwelyd i weithio gyda'r Cyngor.
- Honnodd aelod y bu achosion yn y gorffennol lle 'roedd y staff yn gwybod bod person am ddod yn ôl fel ymgynghorydd. Gofynnodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r aelod ddod ag unrhyw achos penodol i'w sylw.
- Awgrymwyd gyrru neges i'r Adran Addysg yn datgan ei bod yn annheg ac yn anfoesol ail-gyflogi prifathrawon sydd wedi ymddeol pan fo cymaint o bobl ifanc yn methu cael gwaith.
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor dderbyn dadansoddiad o'r ffigurau hyn yn flynyddol.
- Awgrymwyd edrych ar swyddogion sy'n ymddeol ac yn mynd i weithio i rannau eraill o lywodraeth leol, e.e. cynghorau tref a chymuned. Nododd y Cadeirydd fod hynny y tu allan i gyfrifoldeb y Cyngor hwn a chytunodd yr aelod i godi'r mater gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol y tu allan i'r pwyllgor.

## 6. ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2012-13

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn gofyn i'r pwyllgor:-

- Ystyried cynnwys yr Atodiad i'r adroddiad, cynnig newidiadau a'i gymeradwyo, os yn briodol, fel cofnod o waith y pwyllgor craffu am y flwyddyn i'w gynnwys yn yr Adroddiad Craffu Blynyddol.
- Ystyried ac argymell sut orau i dracio gweithrediad yr argymhellion.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mynegwyd anfodlonrwydd nad oedd modd i aelodau godi materion o'r cofnodion mewn pwyllgorau. Atebodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu y golygai hynny newid Cyfansoddiad y Cyngor. 'Roedd tracio argymhellion craffu yn fater gwahanol ac yn rhan o rôl yr aelodau fel craffwyr.
- Awgrymwyd nodi dyddiad cyflwyno pob argymhelliad i Aelod Cabinet.
- Nodwyd nad oedd y 73% o argymhellion y pwyllgor craffu hwn a dderbyniwyd gan yr aelodau cabinet ar gyfer 2012/13 yn cynnwys yr 11 argymhelliad yn deillio o drafodaeth y pwyllgor ar y Strategaeth Caffael na chafwyd ymateb iddynt. Gan hynny, gallai'r ganran derfynol fod yn is. Cytunwyd i ofyn i'r Aelod Cabinet Economi ddarparu atebion i'r 11 argymhelliad. Ar bwynt o eglurhad, nododd Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy fod yr Aelod Cabinet wedi gofyn i'r adran wneud ymchwiliad i'r system gaffael yn gyfan gwbl. Awgrymwyd, os mai dyna'r rheswm dros y diffyg ymateb, bod y craffwyr angen cadarnhad o hynny
- Nodwyd bod yr argymhellion sy'n deillio o drafodaeth y pwyllgor ar Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2011-12 wedi eu hollti a draws nifer o benawdau, ac os

oeddent yn argymhellion unigol, 'roedd y ganran yn disgyn yn is fyth. 'Roedd angen cysoni rhain gyda gweddill yr argymhellion drwy eu nodi ar wahân.

- Nodwyd nad y ffaith bod argymhelliad wedi'i wrthod sy'n bwysig, eithr y rheswm pam ei fod wedi'i wrthod. Awgrymwyd cynnwys brawddeg, neu baragraff ar y mwyaf, i egluro pam bod argymhelliad wedi'i wrthod, ac yng nghyswllt argymhelliad sydd wedi'i dderbyn, dylid cynnwys brawddeg yn nodi hynny ac yn egluro sut y gweithredwyd ar yr argymhelliad hwnnw. I'r perwyl hwn, awgrymwyd hefyd y dylai'r adroddiad nodi dyddiad derbyn neu wrthod yr argymhelliad.
- Nodwyd bod angen cytundeb gyda'r Cabinet ynglŷn â phryd maent yn mynd i ymateb i argymhelliad, hyd yn oed petai'r ymateb hwnnw ond yn nodi na chafwyd cyfle i edrych ar y mater eto. Awgrymwyd y dylai'r cyd-gyfarfod rhwng y cadeiryddion craffu a'r Cabinet drafod hyn a dod i gytundeb ar y ffordd ymlaen.
- Gan gyfeirio at benderfyniad Cyfarfod Paratoi 8 Hydref i atgoffa'r Aelodau Cabinet o'r angen i weithredu ar yr argymhellion ac i ofyn am ddiweddariadau, awgrymodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu y byddai'n ddefnyddiol adnabod aelodau unigol o'r pwyllgor i dracio eitemau penodol gydag ef, fel y gallent ddod i mewn yn ehangach i'r gwaith y tu allan i'r pwyllgor ei hun. Hefyd, wrth gyflwyno argymhellion i Aelod Cabinet, dylid pennu dyddiad neilltuol ar gyfer cyfarfod yr Aelod Cabinet i gael diweddariad o'r sefyllfa a chynnwys nodyn o'r cyfarfod hwnnw yn yr adroddiad maes o law.
- Yn ogystal â nodi'r effaith ddisgwyliedig, dylid hefyd nodi unrhyw effeithiau concrit y gellir eu mesur.
- Awgrymwyd y dylai adroddiad 2013-14 gyfeirio'n ôl at adroddiad eleni a rhoi diweddariad o'r sefyllfa.
- Nododd aelod na theimlai'n fodlon gyda chanlyniad yr ymchwiliad craffu meddylfryd systemau oherwydd bod casgliadau'r grŵp ymchwil wedi cael eu hanwybyddu. I'r diben hwn, awgrymodd y dylid mynd yn ôl eto at yr Aelodau Cabinet perthnasol i ofyn am atebion. Cytunodd Cadeirydd yr Ymchwiliad i wneud hyn gyda'r Rheolwr.

Nododd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn derbyn drafft o'r adroddiad blynyddol wedi'i ddiweddaru ar ryw bwynt yn ystod y misoedd nesaf.

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013-2014

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

**PENDERFYNWYD trafod y rhaglen waith yn y Cyfarfod Paratoi nesaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.50am.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 IONAWR 2014 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ARBEDION |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Peredur Jenkins |
| | |

**1 CEFNDIR**

1.1 Yn sgil yr adroddiadau yr wyf wedi eu cyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor dros y misoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi ei ddymuniad i graffu goblygiadau hyn i'r strategaeth arbedion gan ofyn i mi gyfarch y materion canlynol –

A Nodi'r cynnydd ar y 62 cynllun o'r Strategaeth Arbedion sy'n cael eu gwireddu yn ystod 2013-14.

B Cynllun Ymgysylltu drafft gyda manylion am sut y bwriedir ymgysylltu ar y canlynol:

- Strategaeth Ariannol Hir Dymor
- Cynlluniau Arbedion Argyfwng
- Cyllideb 2014-15
- Cynlluniau Arbedion 2015 ymlaen

C Dangoswch sut yr ydych wedi mesur effaith cyflawni'r Arbedion hyd yn hyn a manylwch ar eich trefniadau i fesur effaith yn y dyfodol.

1.2 Nodaf isod hynny o fanylion y gallaf eu rhoi am y materion yma.

**2 Beth yw'r cynnydd ar y 62 cynllun o'r Strategaeth Arbedion sy'n cael eu gwireddu yn ystod 2013-14 ?**

2.1 Fel yr wyf wedi adrodd yn y gorffennol, mae yna drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau fod yr holl gynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni (neu o leiaf ein bod yn cael rhagrybudd buan os oes problemau yn codi), gyda grŵp project swyddogion dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cyllid yn monitro'r sefyllfa yn gyson.

2.2 'Rwyf innau wedyn yn cynnal cyfarfod pob deufis gyda'r Cyfarwyddwr i dderbyn adroddiad cynnydd gan y Grwp project hwnnw.

2.3 Dengys y dadansoddiad diweddaraf ein bod yn disgwyl i 67 cynllun gyflawni gwerth £3.578m o arbedion yn 2013/14.

2.4 O rhain dengys y dadansoddiad diweddaraf fod yna elfen o bryder wedi ei godi ynglŷn â 6 ohonynt sydd i gynhyrchu £657,200. Nodir isod pam fod yna bryder ar y cynlluniau yma -

**Cynyddu lefel cynhyrchedd paratoi prydau ysgol** (£35,000) : llithriad cyflawni yn sgil y newidiadau i drefniadau uwch reolaethol y Cyngor – Pennaeth Addysg a threfn yn ei le i roddi cynllun gweithredu ar waith.

**Gofal Dydd Anabledd Dysgu** (£70,000) : Cynllun gwreiddiol wedi llithro oherwydd yr angen i asesu gwir effaith y cynigion ac oherwydd hynny yn debygol o lithro i 2014/15. Dim pryder am y gallu i wireddu fodd bynnag – mater o amseriad yn unig.

**Trawsnewid y gwasanaeth gwastraff masnachol** (£50,000) : Cynllun busnes yn ei le i drawsnewid ond llithriad yn yr amser y bydd yn ei gymryd i'w gyflawni am amrywiol resymau. Hyderus y bydd yn cyflawni ymhen amser.

**E-gaffael** (£219,200) : Cwestiwn a oedd yr achos busnes rhy uchelgeisiol. £299,120 o arbedion eisoes wedi eu gwireddu yn y maes yma a pheth pryder ynglyn a faint o'r £219,200 yr oeddem wedi ei ragweld y bydd modd i ni ei gyflawni yn 13/14 - gwaith yn mynd ymlaen gan y Bwrdd i wneud asesiad realistig.

**Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru** (£50,000) : project cydweithio rhanbarthol oedd yn anelu i gyflawni arbedion ym maes comisiynu gwasanaethau yn y maes gofal. Elfen o ddiffyg gwybodaeth ar hyn o bryd ynglyn a gwir faint yr arbedion ddaw i'n rhan - gwaith yn mynd ymlaen i sefydlu hynny.

**Galluogi** (£233,000) : Er bod y cynllun galluogi yn weithredol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol nid yw'r gwaith o fantoli'r gwir arbedion sydd am ddeillio wedi ei gwblhau ac felly ni ellir bod yn bendant am y swm yma eto.

2.5 Fe welir felly tra bod yna bryder ynglyn a rhai cynlluniau – mater o amseru ac aneglurder ynglyn a maint yr arbedion disgwyliedig yw hyn ac 'rydym yn tybied y bydd mwyafrif llethol cynlluniau 2013/14 yn cael eu gwireddu yn llwyr ymhen amser.

## 3 Sut fyddwn ni'n ymgysylltu ynglyn a'r materion ariannol dros y cyfnod i ddod ?

3.1 Mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu ar strategaeth ariannol lefel uchel fydd yn seiliedig ar sefydlu cyllideb gytbwys yn 2014/15 ac yna sefydlu rhaglen o arbedion pellach i'w sefydlu rhwng rŵan a diwedd 2014 gyda golwg ar gael yr arbedion hynny yn weithredol o ddiwedd y flwyddyn hon.

3.2 'Rydym wrthi'n gweithio ar hyn o bryd ar sefydlu beth yw'r cyfleoedd o fewn y gwahanol adrannau i ddod o hyd i fwy o arbedion effeithlonrwydd neu i fedru rheoli galw am wasanaethau yn well, ac o

sefydlu'r cyfleoedd hynny gellir gosod targed arbedion o'r fath i bob gwasanaeth.

3.3 Fel y bu i mi nodi yn y Cyngor, y bwriad yw cynnal cyfres o seminarau i holl aelodau'r Cyngor tua diwedd Ionawr/ dechrau Chwefror, ac unwaith y byddwn wedi sefydlu'r "amrediad cyfleoedd" sydd ar gael i'r gwahanol wasanaethau y bwriad yw trafod y cyfleoedd hynny yn seminarau yma cyn dod a chynigion o ran targedau i'r cabinet fydd wedyn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio ac yn cael ei fabwysiadu (neu beidio) gan y Cyngor.

3.4 Y gobaith felly yw y bydd pob aelod wedi cael cyfle i ddeall a dylanwadu ar y targedau yma cyn y bydd gofyn i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ffurfiol.

3.5 Unwaith y bydd y targedau wedi cael eu mabwysiadu, bydd gofyn wedyn i'r gwasanaethau ddod a'u cynigion unigol ar gyfer cyflawni ger bron yr aelodau.

3.6 Tra ein bod yn gweithio ar hyn o bryd ar y gyfundrefn fanwl fydd ei angen i weithredu hyn yn y cyfnod Mai - Hydref 2014 y syniadau cychwynnol yw defnyddio cyfundrefn debyg i'r un a welwyd wrth baratoi'r rhaglen arbedion blaenorol lle'r oedd pob gwasanaeth yn cyflwyno eu cynigion ger bron cyfres o seminarau lle gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor iddynt cyn i'r cynigion fynd drwy'r broses ffurfiol fel bod pob aelod yn cael cyfle i ddeall yr holl gynlluniau manwl.

3.7 Bydd y gyfundrefn yma yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd a rheoli galw fydd o'u natur yn cael yr ardrawiad isaf posibl ar bobl Gwynedd, ond mae'n amheus gen i a fydd hyn ynddo'i hun yn ddigon i ddygymod gyda'r holl fwlch ariannol y byddwn ei angen dros y blynyddoedd i ddod ac fe fydd yn rhaid i ni rhyw bryd ddisgyn yn ôl ar doriadau gwasanaeth. [Bydd union faint y toriadau hynny yn ddibynnol ar ba mor llwyddiannus fyddwn ni gyda'r gyfundrefn arbedion effeithlonrwydd / rheoli galw wrth gwrs].

3.8 Yn hyn o beth, bydd angen cyfundrefn ar gyfer sefydlu beth yw blaenoriaethau'r Cyngor (er mwyn sefydlu lle bydd modd torri) ac 'rydym yn gweithio ar y gyfundrefn ar gyfer gwneud hynny yn gyfochrog a'r gyfundrefn a nodir uchod ar gyfer arbedion effeithlonrwydd/ rheoli galw.

3.9 Yn sicr, fel rhan o'r gyfundrefn yma bydd angen i ni gael sgwrs gyda phobl Gwynedd er mwyn ceisio sefydlu beth yw eu blaenoriaethau hwy cyn gofyn i'r aelodau ystyried y mater ac yn naturiol os ydan ni yn son am dorri gwasanaethau fe fydd yn rhaid i holl aelodau'r Cyngor hefyd fod yn rhan o'r drafodaeth honno.

3.10 Bydd y gyfundrefn y byddwn yn ei datblygu yn cymryd y ddwy agwedd yma i ystyriaeth.

3.11 Yr hyn sy'n bwysig wrth gwrs yw bod unrhyw ymgysylltu yn seiliedig ar ddealltwriaeth aeddfed o sefyllfa'r Cyngor a beth sy'n bosibl, gyda golwg ar bwyso a mesur blaenoriaethau yn erbyn ei gilydd ar sail eu heffaith gymharol ar bobl Gwynedd, yn hytrach na phroses arwynebol sy'n honni i fod yn ymgysylltu ond sydd ond yn fater o dicio bocs "ymgysylltu" mewn gwirionedd.

4 **Sut ydym wedi <u>mesur effaith cyflawni'r arbedion</u> hyd yn hyn a beth yw'r trefniadau i fesur effaith yn y dyfodol.**

4.1 Hon yw'r broblem sylfaenol sy'n wynebu'r Cyngor.

4.2 Mae pawb yn gytûn os oes rhaid darganfod arbedion y dylem geisio sicrhau fod yr arbedion hynny yn cael yr ardrawiad lleiaf posibl ar bobl Gwynedd.

4.3 Hyd yma, bu i ni sicrhau hynny drwy nodi mai arbedion effeithlonrwydd yr oeddem yn edrych amdanynt ac wrth gyflwyno cynlluniau, 'roedd gofyn i bob gwasanaeth fod yn glir ynglyn a beth fyddai effaith eu cynlluniau o'u gwireddu.

4.4 'Roedd hynny yn glir ymhob un cynllun a roddwyd ger bron yr aelodau ac os nad oeddent 'roed dyna gyfle i aelodau nodi nad oeddent yn glir er mwyn cael gwell dealltwriaeth, ac yn wir fe gafwyd un neu ddau o enghreifftiau o hynny wrth ddilyn y gyfundrefn a ddilynwyd i sefydlu'r rhaglen arbedion presennol.

4.5 Er mwyn ceisio sicrhau tystiolaeth pellach fe ofynnais am adroddiad gan swyddogion i asesu a oedd y cynlluniau arbedion a wireddwyd yn 2012/13 wedi cael effaith ar unrhyw un o brif ddangosyddion perfformiad y Cyngor sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Strategol (121 ohonynt).

4.4 Nid yw bob tro'n hawdd adnabod pa fesurau - os o gwbl - y gallai cynllun arbedion gael effaith arnynt a bu rhaid dod i farn ar sut i ymdrin â rhai ar sail ein hadnabyddiaeth o'r maes a'r cynllun dan sylw. 'Roedd swyddogion yn ffyddiog ein bod wedi adnabod y cysylltiadau pwysicaf, er bod yna wastad bosibilrwydd fod cyswllt llai amlwg yn bodoli.

4.5 Fe adnabuwyd cyswllt posibl rhwng cynlluniau arbedion a mesurau perfformiad mewn 24 achos gyda 18 yn dangos perfformiad wedi gwella; 2 yn dangos perfformiad yr un fath a 4 yn dangos dirywiad. Felly mewn 83% o'r achosion 'roedd modd bod yn eithaf pendant nad oedd yr arbedion wedi arwain at ddirywiad yn y perfformiad.

4.6 O ran y meysydd lle gwelwyd dirywiad mewn perfformiad a lle bu cynllun arbedion yn weithredol nodir y meysydd hynny isod nghyd a'r sylwadau amdanynt.

| Mesurydd | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|
| Nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (lefel presenoldeb y Cyngor) | 2011/12: 8.29<br>2012/13: 8.52 | <u>Arbedion yn y maes yma:</u> Mwy o ddefnydd o adnoddau Iechyd Galwedigaethol mewnol £13k<br><br>Er hynny mae'n werth nodi efallai mai perfformiad 2011/12 oedd y gorau erioed i'r Cyngor ac mai 2012/13 oedd yr ail orau. |
| Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 2011/12: 73%<br>2012/13: 71.88% | <u>Arbedion yn y maes yma:</u> Glanhau Strydoedd £20k; Goramser yr adran £34k; Shifftiau 12 awr £146k<br><br>Er hynny fe gyrhaeddwyd yr uchelgais a osodwyd ar gyfer 2012/13. |
| Cyfartaledd y nifer o ddyddiau a dreuliwyd o fewn y system ddigartrefedd o ddyddiad derbyn y cyfeiriad at gyflawni gofyn y defnyddiwr | 2011/12: 143 dydd<br>2012/13: 161 dydd | <u>Arbedion yn y maes yma:</u> Swyddog Cynorthwyol Tai £21k |
| Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd | 2011/12: 49.72<br>2012/13: 47.28 | <u>Arbedion yn y maes yma:</u> Adolygu pecynnau gofal cartref £205k; Taliadau uniongyrchol £26k; Taliadau i ddarparwyr annibynnol £92k; Galluogi £328k<br><br>Mae cwestiwn am ba mor ystyrlon yw hwn fel mesurydd p'run bynnag. Mae'r ffaith fod targed o 60 wedi'i osod ar gyfer 2012/13 yn awgrymu mai'n nod yw ei gynyddu - ond eto mae yna nifer o gynlluniau (Galluogi, Teleofal ayb) sydd â'r nod o gael y nifer i lawr. |

4.7 Mae'n amhosibl dod i gasgliad a gafodd unrhyw un o'r cynlluniau arbedion effaith go iawn ar drigolion, oherwydd hyd yn oed yn yr enghreifftiau a nodwyd uchod mae modd dod i gasgliad nad yw'r arbedion unrhyw beth i'w wneud gyda'r dirywiad mewn perfformiad a byddai'n rhaid hefyd ystyried beth yw'r effaith hir dymor.

4.8 Mae'n debyg mai'r ffordd orau i ystyried gwir effaith ar bobl Gwynedd yw bod yn glir o'r cychwyn beth yw natur y cynllun arbediad a pha effaith y disgwylir iddo ei gael fel bod aelodau yn glir am hynny o'r cychwyn cyntaf gan fod yn fyw wedyn i enghreifftiau o effeithiau na amlygwyd pan gytunwyd i'r cynllun er mwyn gweld a oes angen cymryd camau i leddfu'r effeithiau hynny neu a oes gwersi pellach i'w dysgu.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **16 Ionawr 2014** |
| **TEITL** | **Adroddiad Cynnydd Cynllun Integredig Sengl Gwynedd ac Ynys Môn** |
| **AWDUR** | **Trystan Pritchard, Uwch Reolwr Partneriaethau** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dyfed Edwards** |
| | |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Cynnydd tuag at sefydlu Cynllun Integredig Sengl i Wynedd ac Ynys Môn**<br><br>**Angen cynnig sicrwydd fod buddiannau pobl Gwynedd yn cael eu gwarchod** |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | **Na** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **Argymhellir fod y Pwyllgor y derbyn copi terfynol o'r Cynllun fel rhan o'r broses gymeradwyo unwaith y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cytuno ar gyfeiriad y rhaglen waith** |

## Cynllun Integredig Sengl Gwynedd ac Ynys Môn

## Adroddiad Cynnydd Ionawr 2014

## Rhagarweiniad

**Pwyntiau penodol a godwyd y dilyn cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol:**

1. Cynllun Prosiect y Gwaith – Adran 6, tudalen 6 ac Atodiad 1, tudalen 11

2. Cynllun Ymgysylltu'r Cynllun – Adran 8, tudalen 9 ac Atodiad 2, tudalen 13

3. Sylwadau a gafwyd hyd yn hyn - Mae crynodeb o'r prif negeseuon i'w gael yn Adran 8, tudalen 9, gyda'r cofnod penodol yn Atodiad 2, tudalen 13

4. Y berthynas rhwng y Bartneriaeth a phartneriaethau eraill neu gydweithio ag Ynys Môn a rhestr o'r Partneriaethau a'r Cynlluniau Cydweithio – Adran 6, tudalen 6

5. Drafft o'r Cynllun - Mae'r amserlen i'w weld yn Atodiad 1, tudalen 11. Cynigir fod drafft yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol fel rhan o'r broses gymeradwyo ffurfiol. Mae drafft presennol y cynllun i'w weld yn Atodiad 3, tudalen 16

6. Effaith y cyn Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ar drigolion Gwynedd - Adran 8, tudalen 9

7. Mesur effaith y Cynllun Integredig – adran 7.5, tudalen 8

## 1. Cyd-destun Newid

1.1 Yn dilyn y rhagolygon a'r cyhoeddiadau cyllidebol diweddaraf o Gaerdydd a San Steffan, mae'n glir bod risg amlwg i gynhaliaeth gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Mae'r her o ran rheoli'r galw a'r pwysau yn cynyddu. Mae angen datblygu cynlluniau a ffyrdd gweithio fydd yn cynnal gwasanaethau fel gwaelodlin ac yn edrych at gynnig gwell gwasanaethau gyda llai o adnodd ble mae hynny'n bosibl.

1.3 Mae llawer o unigolion, teuluoedd a chymunedau, a fu'n gymharol sicr ychydig o flynyddoedd yn ôl, nawr yn agos at yr ymyl. Mae'r newidiadau o ran ddemograffi a disgwyliadau yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau aciwt ac mae'r costau sy'n ganlyniad, yn economaidd a chymdeithasol, yn anghynaladwy.

Er hynny, mae cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i leddfu'r pwysau ac i gynllunio yn well ar gyfer y dyfodol. Mae'r datblygiadau posibl o ran gorsaf niwclear newydd ym Môn a'r potensial i ddatblygu'r cysyniad o Ynys Ynni yn gyffrous o ran datblygiad ar raddfa fawr. Mae nifer o ymyraethau a newid ffyrdd o weithio i gyd-gynhyrchu ar raddfa lai. Mae cyfle i symud o fod yn gymdeithas sy'n gadael i broblemau ddatblygu ac yn talu'r pris i un sy'n eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

## 2. Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) yn cynnig cyfle i ddatblygu mentrau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chylch o ddibyniaeth ar wasanaethau craidd fel y cytunwyd eisoes gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

2.2 Er ei fod yn cynnig cyfleoedd i arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, rhaid iddo hefyd gyflawni'r cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal a Lles a Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun hefyd yn cyfarch pwrpas blaenorol Strategaethau Cymunedol.

2.3 Ni fydd y cynllun yn cynnwys prosiectau sydd yn gyfrifoldeb y gwasanaethau craidd, ond bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau cryfach, mwy gwydn ac annibynnol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth wrth i arian cyhoeddus brinhau.

2.4. Prif nod y cynllun yw ychwanegu gwerth a lleihau'r pwysau ar wasanaethau craidd trwy weithio mewn partneriaeth.

2.5 Er mwyn cyflawni hyn, bydd **'datblygu cymunedau cryf yng Ngwynedd a Môn a sicrhau gwasanaethau cynaliadwy'** yn themâu canolog.

Mae gan gymunedau cryf fwy o rôl wrth ofalu am eu hanghenion eu hunain mewn cyfnod o adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol. Pan fydd cymunedau'n gweithio'n dda y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys ac yn teimlo'n ddiogel ar y strydoedd. Gall adeiladu gallu'r gymuned felly helpu tua'r nod o ddarparu mwy am lai ac arbed arian.

Nid yw hwn yn gysyniad newydd. Bu cryfder ac ysbryd cymunedau Cymru yn nodwedd erioed, ond gallai ei botensial gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion yr ydym yn eu hwynebu heddiw.

## 3. Pam canolbwyntio ar ddatblygu cymunedol?

- Gallai datblygu cymunedol fod yn ganolog i gynaladwyedd cymdeithasol mewn hinsawdd ble mae adnoddau yn lleihau

• Mae tystiolaeth pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd cymunedol fod eu hiechyd corfforol a meddyliol yn gwella

• Gall helpu pobl i ddatrys eu problemau diogelwch cymunedol eu hunain lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd

• Gall datblygu cymunedol arwain at well cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau chwaraeon. Weithiau mae angen cefnogaeth ar bobl i gyflawni hyn

• Gall datblygu cymunedol arwain at ddatblygu mentrau cymdeithasol a helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau ariannol ac eraill

• Gall dewisiadau cludiant lleol gael eu gwella drwy ddatblygu cymunedol e.e. cynlluniau rhannu ceir

## 4. Dulliau Gweithredu

Bydd y dulliau canlynol gael eu mabwysiadu i weithredu'r blaenoriaethau yn y CIS:

### 4.1 Ymyrraeth gynnar a Rheoli Galw

Mae'n glir fod yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn lleihau ac y bydd y wasgfa ariannol yn ddyfnach ac yn parhau yn llawer hirach na fu'r darogan i ddechrau.

Mae'n rhaid felly sicrhau ein bod yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau mwyaf dwys a drud drwy ddatblygu prosiectau sy'n adnabod arwyddion cynnar dibyniaeth ac yn gweithredu i leihau angen neu ei ddileu ble mae'n bosibl. Drwy ddelio a'r problemau cyn iddynt gael cyfle i ddatblygu byddwn yn annog gwydnwch mewn unigolion a chymunedau gan leihau'r ddibyniaeth ar adnoddau cyhoeddus.

### 4.2 Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn cynnwys dinasyddion, cymunedau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi ac yn rhannu eu harbenigedd i greu canlyniadau mwy effeithiol a chynaliadwy. Mae'n seiliedig ar athroniaeth sy'n gwerthfawrogi unigolion, yn adeiladu ar eu systemau cymorth eu hunain ac yn ystyried eu lle yn y gymuned ehangach.

Mae'r dull hwn yn gofyn am symud oddi wrth ddulliau a arweinir gan wasanaeth neu o'r brig i lawr i un o rymuso dinasyddion, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u cymunedau wrth gyd-gomisiynu, cyd-gynllunio, cyd-ddarparu a chyd-werthuso gwasanaethau. Mae hyn yn fwy nag ymgynghori a phobl fel defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau. Mae'n golygu partneriaeth go iawn rhwng gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus a'r rhai sy'n eu defnyddio.

## 5. Datblygu Cymunedau Cryf - rôl yr Uned Partneriaeth

Prif egwyddor y CIS fydd darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n lleihau anghydraddoldeb a gwella canlyniadau, tra ar yr un pryd yn galluogi trigolion a chymunedau i ddarparu gweithgareddau a chyflawni canlyniadau ar gyfer eu hunain.

Bydd yr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn hwyluso hyn drwy:

**5.1 Weithio gyda phartneriaid**

• Rhannu gwybodaeth gydag a dylanwadu ar gynlluniau partneriaid strategol er mwyn cynyddu mynediad, gwydnwch a lleihau anghydraddoldebau, gan sicrhau casglu a rhannu arfer da
• Datblygu dulliau newydd ac arloesol i faterion yn y gymuned yn seiliedig ar angen lleol
• Gweithio er mwyn dileu dyblygu ymdrech a gwastraff ar draws y sector gyhoeddus yn y ddwy sir
• Gweithredu prosiectau ble mae cydweithio yn cyflawni mwy na allai un partner ar ben ei hun

**5.2 Weithio gyda phreswylwyr**

• Cryfhau a datblygu gweithgareddau cymunedol
• Annog rhannu adnoddau partneriaid, gan gynnwys adeiladau cymunedol ac asedau eraill, er mwyn galluogi dinasyddion a chymunedau i chwarae rhan lawn wrth gyflwyno manteision y cynllun integredig sengl
• Gweithredu fel llywiwr strategol ar gyfer yr agenda datblygu cymunedau gymdogaeth gan gysylltu pobl gyda chyfleoedd

**5.3 Weithio gyda'r sector gwirfoddol**

• Darparu cefnogaeth strategol a grymuso sector wirfoddol ffyniannus i wasanaethu pobl Gwynedd ac Ynys Môn i'w llawn botensial
• Datblygu a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannol i gryfhau cyfranogiad a

chyfraniad unigolion, cymunedau, a'r sector gwirfoddol
• Cefnogi cyfuno adnoddau gan bartneriaid er mwyn caniatáu i'r trydydd sector i gyflawni ar flaenoriaethau penodol i gryfhau cymunedau ac ardaloedd bregus

## 6. Trefniadau Partneriaethol Presennol

Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol eisoes wedi derbyn adroddiad ar Brosiect Rhesymoli Partneriaethau Gwynedd a Môn. Fe grëwyd Uned Partneriaethau Gwynedd a Môn yn sgil y gwaith yma a daeth i fodolaeth ar Ebrill 1af 2013. Fe ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i'r ddwy sir hefyd.

Mae'r Uned yn gyfrifol am waith partneriaethol dwy sir yn y meysydd canlynol:

- Diogelwch Cymunedol
- Iechyd, Gofal a Lles
- Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Gymunedol

Mae Uned Polisi Cynllunio Gwynedd a Môn ar y cyd hefyd yn gweithredu yn annibynnol i strwythur yr Uned Partneriaethau gyda chyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, dogfen sy'n amlinellu strategaeth datblygu tir y ddwy sir.

Yn ogystal, mae'r partneriaethau canlynol yn parhau i weithredu yng Ngwynedd yn unig:

- Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd
- Partneriaeth Tai Gwynedd

Mae nifer o gynlluniau cydweithio hefyd yn bodoli rhwng y sir ar lefelau is heb drefniadau partneriaethol ffurfiol.

## 7. Amserlen a Chamau Cynllunio

Yn unol â'r gwaith comisiynu a wnaed ar wahân mae prosiectau eisoes yn eu lle yn y ddwy sir felly bwriedir parhau a'r rhaglenni gwaith yma gan gyflwyno comisiynau eraill yn dilyn blaenoriaethau a gytunir gan y BGLL. Mae modd addasu ar raglenni gwaith a phrosiectau pe bai'r BGLL yn dymuno newid y pwyslais o ran cyfeiriad strategol

**7.1 Oes y cynllun:** Bydd yn parhau hyd at 2017 gyda'r Bwrdd Gwireddu yn ei fonitro ar ran y BGLL a chynnig newidiadau wedi eu tywys gan yr hinsawdd o ran anghenion a sefyllfa ariannol. Bydd blaenoriaeth glir ar gynnal gwasanaethau ac osgoi creu anghenion mwy dwys.

### 7.2 Camau hyd yma

| Dyddiad | Cynnydd |
|---|---|
| Nawr | Gwynedd a Môn wedi cytuno a chyhoeddi Cynlluniau Integredig Sengl unigol |
| Mehefin – Medi 2013 | Diweddaru Asesiadau Anghenion |
| Medi - Hydref 2013 | Drafftio Cynllun Integredig Sengl Gwynedd a Môn yn seiliedig ar gynlluniau unigol presennol |
| Hydref – Rhagfyr 2013 | Ail asesu blaenoriaethau ac uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| Nawr hyd Ebrill 2014 | Datblygu cyfeiriad ac uchelgais gan gomisiynu prosiectau penodol mewn meysydd ar sail tystiolaeth ar ymyraethau.<br><br>Cyflawni ar flaenoriaethau presennol y cynlluniau a rhai ymyraethau sydyn o'u hadnabod |
| Ebrill 2014 | Cyhoeddi'r Cynllun Integredig Sengl gan roi ffocws ar brif flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o'r newydd |
| Ebrill 2014 – 2017 | Gwireddu'r Cynllun Integredig gan ei fireinio yn ôl newidiadau hinsawdd fel bo'r angen. Cynnal adolygiadau ysgafn blynyddol |

**7.3 Asesiad Anghenion** - Mae'r cynllun integredig yn seiliedig ar asesiadau blaenorol yng Ngwynedd a Môn ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru i fod yn gyfredol erbyn Medi 2013. Ni chynigir ail wneud y rhain ond eu diweddaru ar gyfer oes y cynllun ac ystyried unrhyw newidiadau blaenoriaethau fydd yn deillio o hynny.

Bydd y sail tystiolaeth yma'n arwain y broses o uno cynlluniau presennol er mwyn rhoi llwyfan dwy sir ar gyfer gwaith y BGLL yn y dyfodol. Yn hytrach na gweithredu fel cynllun sefydlog tynn cynigir bod y BGLL yn cytuno i barhau i fireinio ac addasu i ymateb i anghenion mewn hinsawdd newidiol i warchod gwasanaethau fel y flaenoriaeth uchaf.

### 7.4 Gosod a herio blaenoriaethau

Bydd y BGLL yn gosod yr her a’r cyd-destun strategol ac yn comisiynu grwpiau thematig i ddatblygu prosiectau i wireddu blaenoriaethau. Bydd y Bwrdd Gwireddu yn rheoli’r broses, cymryd trosolwg ar weithredu ac yn monitro perfformiad.

Bydd y Bwrdd Gwireddu yn gosod meini prawf o fod yn cryfhau cymuned, yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau craidd, ac yn helpu i sicrhau gwydnwch gwasanaethau mewn sefyllfa ariannol dynn a dyfnach na ragwelwyd erioed o’r blaen.

### 7.5 Mesur Effaith y Cynllun

Mae cynlluniau cychwynnol yn cael eu datblygu o dan dair prif themâu’r cynllun sef Cymunedau Iach, Cymunedau Diogel a Chymunedau Ffyniannus. Bydd manylion pellach yn cael eu cytuno yn ystod mis Ionawr 2014.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn penderfynu ar y mannau penodol ble mae modd cydweithio i sicrhau cynaladwyedd gwasanaethau cyhoeddus, lleihau’r angen am wasanaethau dwys a chyfarch yr angen am arbedion. Dyma fydd y meini prawf penodol ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Bydd effeithiau’r cynllun yn cael eu mesur yn ôl dangosyddion poblogaeth a meini prawf penodol i’r meysydd unigol. Bydd y cynllun yn datgan yn glir pa ddeilliannau y disgwylir ac yn cynnig mesuriad gwelliant penodol sy’n seiliedig ar ddeilliannau i bobl yn hytrach nag allbynnau.

Er mwyn bodloni egwyddorion ehangach y cynllun bydd y meini prawf yn cael eu gosod ar brosiectau unigol i wireddu’r cynllun. Bydd pwyslais cryf ar dystiolaeth o werth ymyraethau ac asesiad o’r effaith a ellir ei gael yn lleol o gymharu â gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol.

### 7.6 Risgiau

Mewn sefyllfa sefydliadol, partneriaethol a rhanbarthol gymhleth mae risgiau amlwg o ran dyblygu ymdrech a ffiniau aneglur o gyfrifoldeb. Mae angen i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau fod y blaenoriaethau a phrosiectau yn berthnasol yn ôl anghenion lleol. Rhaid hefyd sicrhau mai’r BGLL yw'r cyfrwng priodol i ddatblygu'r meysydd gwaith penodol ac a oes modd iddo sicrhau canlyniadau gwell ar lefel leol o weithredu rhaglen ranbarthol neu genedlaethol.

## 8. Effaith gwaith y cyn Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ar drigolion Gwynedd

Un o brif amcanion partneriaeth Gwynedd ar y Cyd oedd cynyddu cydweithio ymhlith partneriaethau yn y sir. Gwnaeth hynny trwy hybu gweithio partneriaethol ar draws amryw o feysydd gwahanol, Iechyd, Plant a Phobl Ifanc, Diogelwch Cymunedol, Tai, yr Economi a'r Amgylchedd trwy gefnogi gwaith y partneriaethau yn y meysydd hynny.

Fodd bynnag, tynnir sylw at ddau o brif weithgareddau penodol dan nawdd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sydd wedi lleihau dyblygu yn uniongyrchol.

**Prosiect Lleihau Carbon Gwynedd**
Mae'r prosiect yma wedi asio gweithgareddau lleihau ôl troed carbon sector gyhoeddus y sir trwy gydweithio ymarferol rhwng y sefydliadau. Yn hytrach na phob sefydliad yn gweithio ar wahân, mae'r prosiect yma yn arwain gweithgareddau ar y cyd i leihau allyriadau carbon gyda Grŵp Cyflenwyr o'r sefydliadau unigol.

Hyd yma mae'r prosiect wedi arwain gweithgareddau ym meysydd ynni, gwastraff a thrafnidiaeth. Gwelwyd lleihad o 15% mewn allyriadau ynni o adeiladau annomestig erbyn canol 2012. Mae hyn wedi arwain at arbedion ariannol yn ogystal â gwelliannau amgylcheddol. Yn achos Cyngor Gwynedd yn unig mae hyn wedi arbed dros £500,000 ac mae hefyd wedi cyfrannau at Gytundeb Canlyniadau'r Cyngor sydd wedi sicrhau £1.3m o arian grant ychwanegol i'r Cyngor, gan leihau'r pwysau am arbedion pellach ar wasanaethau craidd.

**Prosiect Partneriaid Mewn Gofal**
Mae'r prosiect yma yn lleihau dyblygu trwy gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal yn lleol, gyda'r bwriad o wella gwasanaethau, lleihau achosion o fynediad brys i ysbytai, yn enwedig i gleifion â chyflyrau cronig. Cafodd y gwaith yma ei gychwyn fel cynllun peilot yng Ngwynedd, ac mae eisoes yn cael ei ehangu ar draws y gogledd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar y cyd â Gwasanaethau Cymdeithasol siroedd y gogledd a'r sector wirfoddol. Mae sefydlu timau integredig yn ganolog i'r gwaith yma e.e. gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, sefydlwyd pwynt mynediad unigol i wasanaethau.

## 9. Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Fe benderfynwyd gan y Bwrdd Gwireddu na fyddai ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ddefnyddiol gan fod y ddau gyngor wedi rhedeg prosesau tebyg yn ddiweddar iawn wrth lunio eu cynlluniau corfforaethol a'u Cynlluniau Integredig Sengl. Byddai ymgynghoriad pellach yn dyblygu gwaith ac yn gost ddiangen.

Cytunwyd i ddiweddaru asesiadau anghenion y ddwy sir i roi un ddogfen sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn y ddwy sir. Yn ogystal fe ddefnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd gan drigolion y ddwy sir mewn arolygon diweddar ynghyd a thystiolaeth y paneli trigolion.

Roedd y prif negeseuon o waith ymgynghori diweddar y ddau gyngor yn rhan allweddol o'r gwaith paratoi. Yn gyffredinol yng Ngwynedd mae mynediad at wasanaethau lleol, iechyd, swyddi a datblygu'r economi yn themâu amlwg o'r gwaith ymgynghori. Ym Môn mae'r pwyslais ar swyddi a datblygu economaidd gyda sicrhau gwasanaethau lleol hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig.

Gan fod ymgynghoriadau'r cynghorau ar flaenoriaethau yn gyfredol, canolbwyntiwyd ar sicrhau ymgysylltiad partneriaid a swyddogion penodol mewn adrannau penodol o'r ddau gyngor wrth ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl.

Fel rhan o'r broses yma, cynhaliwyd cyfarfod rhwng prif arweinwyr y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gytuno ar gyfeiriad strategol y Bwrdd

Cytunwyd fod gormod o sylw ar waith ymylol wedi bod hyd yma gyda diffyg tystiolaeth ar wir effaith ymyraethau ar fuddiannau pobl leol.

Cytunwyd i geisio datblygu model fyddai'n anelu i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy, lleihau'r angen am wasanaethau dwys a chyfarch yr angen am arbedion. Byddai'r sylw yn cael ei roi ar anghenion pobl sydd ar drothwy gwasanaethau gydag ymdrechion yn cael eu targedu i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau dwys a drud.

I wireddu hyn, cytunwyd fod angen gwell sylw ar ddadansoddi data ynglŷn ag anghenion lleol a sicrhau gwell tystiolaeth ar lwyddiant ymyraethau.

Cytunwyd y byddai'r Cynllun Integredig yn cyfarch y ffordd newydd o weithio gan nodi yn glir y byddai adnoddau ac ymdrechion yn cael eu targedu yn ôl dwyster angen a'r angen i leihau dibyniaeth a hyrwyddo annibyniaeth.

Byddai drafft cyntaf y Cynllun felly yn cynnig dadansoddiad o'r asesiad anghenion ac yn amlinellu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y dyfodol. Byddai cynigion mewn meysydd penodol yn cael eu datblygu maes o law ac yn cael eu cynnwys mewn rhaglen waith ryngweithio a manwl i gefnogi egwyddorion sy'n gynwysedig yn y cynllun.

Mae cofnod o'r gwaith ymgysylltu i'w gael yn Atodiad 2.

# Atodiad 1: Cynllun Integredig Gwynedd a Môn – Cynllun Prosiect

| Dyddiad | Gweithred | Arwyddocâd | Arweinydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Ebrill 10 2013 | Cytuno ar flaenoriaethau i'r cario o gynlluniau cyfredol Gwynedd a Môn | Sylfaen i uno'r ddau gynllun | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |
| Ebrill - Awst 2013 | Cyfuno ac adeiladu ar Asesiadau Anghenion Strategol y ddwy sir | Sylfaen tystiolaeth i ddatblygu cynllun | Bwrdd Gwireddu |
| | | | |
| Awst 2013 | Gweithgareddau cyfranogi gyda chymunedau | Bwydo mewn i adroddiad ar asesiad anghenion | Uned Partneriaethau |
| | | | |
| Medi 2013 | Cytuno ar asesiad anghenion a phenderfynu ar ddeilliannau i'w cyfarch | Sylfaen i ddatblygu'r cynllun | Bwrdd Gwireddu |
| | | | |
| Medi – Hydref 2013 | Drafftio'r Cynllun a rhaglen waith | Gosod cyfeiriad | Uned Partneriaethau |
| | | | |
| Hydref 2013 | BGLL i gytuno ar y Cynllun | Sylfaen i ddatblygu meysydd gwaith | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |
| Hydref 2013 – Ionawr 2014 | Ail gyflwyno cynllun yn dilyn her uchelgais y BGLL | Ail flaenoriaethu yn sgil cyfyngiadau cyllidol a gwneud gwell defnydd o adnoddau | Uned Partneriaethau |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2014 | Ail gyflwyno cynllun | Galluogi rheoli perfformiad | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |
| Ionawr – Mawrth 2014 | Dilyn proses gymeradwyo swyddogol y ddau gyngor | Proses Ffurfiol gan gynnwys Craffu | Cyngor Gwynedd Cyngor Ynys Môn |
| | | | |
| Ionawr – Mawrth 2014 | Datblygu cynigion i wireddu blaenoriaethau | Gwireddu ar amcanion | Bwrdd Gwireddu |
| | | | |
| Ebrill 2014 | Cytuno'r cynllun gan y Bwrdd | Sêl bendith i barhau | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |

## Atodiad 2: Crynodeb Ymgysylltu Cynllun Integredig Gwynedd a Môn

| Dyddiad | Gweithred | Arwyddocâd | Arweinydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Ionawr 29 2013 | Cyfarfod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd | Trafod blaenoriaethau cyfredol | Iwan Trefor Jones |
| | | | |
| Chwefror 7 2013 | Gweithdy Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Trafod blaenoriaethau ac asio cynlluniau | Stephen Wood |
| | | | |
| Chwefror 26 2013 | Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Mantell Gwynedd | Trafod a'r Trydydd Sector | Carwyn Humphreys |
| | | | |
| Mawrth 15 2013 | Gweithdy Strategol gyda'r Bwrdd Iechyd | Trafod plethiant Iechyd a Lles | Geoff Lang |
| | | | |
| Mawrth 21 2013 | Bwrdd Gwireddu | Trafodaeth ar flaenoriaethu ac osgoi dyblygu | Geraint George |
| | | | |
| Mawrth 27 2013 | Grŵp Thematig Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a Môn | Gosod seiliau trefniant newydd ac asio blaenoriaethau | Iwan Trefor Jones a Dr. Gwynne Jones |
| | | | |
| Mawrth 28 2013 | Grŵp Thematig Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Gosod seiliau trefniant newydd ac asio blaenoriaethau | DP Lewis<br>Gwen Carrington |
| | | | |
| Ebrill 10 2013 | Cytuno ar flaenoriaethau i'r cario o gynlluniau cyfredol Gwynedd a Môn | Sylfaen i uno'r ddau gynllun | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |
| Ebrill 30 2013 | Grŵp Rheolwyr Cyngor Gwynedd | Amlinellu amserlen y cynllun a chychwyn trafodaeth ar fireinio blaenoriaethau | Penaethiaid Gwasanaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Mai 7 2013 | Grŵp Thematig Iechyd | Datblygu blaenoriaethau | Morwenna Edwards<br>Gwen Carrington |
| Mai 7 2013 | Grŵp Thematig Plant a Phobl Ifanc | Datblygu blaenoriaethau | Iwan Trefor Jones<br>Dr. Gwynne Jones |
| | | | |
| Mai 13 2013 | Grŵp Rheoli | Diweddaru ar ddatblygu'r cynllun | Cyfarwyddwyr Strategol<br>Penaethiaid Gwasanaeth |
| Mai 23 2013 | Cyfarfod Rheolwr Cynllunio | Plethiant gyda Chynllun Strategol y Cyngor: cytundeb ar gyfarfodydd misol wedi hyn | Darren Griffiths |
| | | | |
| Mai – Gorffennaf 2013 | Cyfarfodydd unigol a Phenaethiaid | Mireinio blaenoriaethau | Penaethiaid Gwasanaeth |
| | | | |
| Mehefin 6 2013 | Gweithdy Bwrdd Gwireddu | Herio blaenoriaethau | Bwrdd Gwireddu |
| | | | |
| Gorffennaf 16 2013 | Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Herio a chytuno ar flaenoriaethau | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| | | | |
| Awst 19 2013 | Cyfarfod Rheolwr Rhaglen Ffordd Gwynedd | Sicrhau plethiant cynlluniau | Erica Roberts |
| | | | |
| 4 Medi 2013 | Tîm Rheoli | Diweddariad ar ddatblygiad y cynllun | Cyfarwyddwyr Strategol |
| | | | |
| 27 Medi 2013 | Bwrdd Gwireddu | Trafod cynigion gwireddu | Bwrdd Gwireddu |
| | | | |
| 11 Hydref 2013 | Cyflwyniad i Age Cymru | Ymgysylltu ar ddrafft diweddaraf | Age Cymru Gwynedd a Môn |
| | | | |
| 22 Hydref 2013 | Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Trafodaeth ar flaenoriaethu yn gywir a newid cyfeiriad yn sgil | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyhoeddiadau cyllid | |
| 6 Rhagfyr 2013 | Cyfarfod Prif Weithredwyr | Trafod cyfeiriad y BGLL a sut i ymateb i'r heriau cynyddol o ran gwasanaethau cynaliadwy | Prif Weithredwyr Cadeirydd BGLL |

## Atodiad 3. Asesiad Byr Sgrinio Effaith ar Gydraddoldeb

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| A oes rheswm i gredu y bydd rhai grwpiau yn cael eu dros/tan gynrychioli fel defnyddwyr gwasanaeth / derbynwyr o ganlyniad i'r prosiect hwn? | Na, y CIS yn anelu at gyfarch anghenion penodol ag anghenion y grwpiau bregus a hyn yn sail i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned gyfan. Bydd angen mesurau i sicrhau bod pob grŵp yn cael eu cynrychioli ac ymgysylltu â hwy yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun a'r asesiad anghenion |
| A oes rheswm i gredu bod gan wahanol grwpiau wahanol anghenion, profiadau, materion neu flaenoriaethau mewn perthynas â'r prosiect hwn? | Oes, bydd y CIS ymdrin â phob carfan o'r gymuned a gweithredu dulliau gwahanol i ddiwallu anghenion gwahanol |
| Ydych chi wedi ymgynghori gydag unigolion, yn berthnasol grwpiau a sefydliadau ynghylch eu profiadau, materion neu flaenoriaethau mewn perthynas â'r prosiect hwn? | Do , mae hyn wedi cael ei wneud ar lefel sirol sengl a bydd yn cael ei grynhoi fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu ar gyfer y cynllun hwn |
| A oes pryder cyhoeddus bod y swyddogaeth neu'r polisi fel yr amlinellir yn y prosiect yn gweithredu mewn ffordd wahaniaethol? | Na, os caiff y cynllun ei ddatblygu ar asesiad anghenion cadarn |
| A oes rheswm i gredu y bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb yn well ar draws y ddwy sir? | Oes, bydd yr asesiad o anghenion yn caniatáu cynllun wedi'i deilwra a fydd yn darparu gwasanaeth mewn ffordd sy'n fwy hygyrch i'r defnyddiwr gwasanaeth |

## Atodiad 4: Cynllun Integredig Sengl Drafft Gwynedd ac Ynys Môn

## Gweler dogfen ar wahan

# *Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn*

Partneriaeth
Gwynedd ac Ynys Môn
Anglesey and Gwynedd
Partnership

DRAFFT

**Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd**

**2013-2017**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... **3**

**Gweledigaeth** .......... **4**

**Cymunedau Iach** .......... **10**
- **Ffordd o fyw iach** .......... **12**
- **Hyrwyddo Annibyniaeth** .......... **13**
- **Cyflyrau Cronig** .......... **13**

**Cymunedau Diogel** .......... **14**
- **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** .......... **15**
- **Camddefnyddio Sylweddau** .......... **16**
- **Camdrin Domestig** .......... **18**
- **Diogelu** .......... **19**

**Cymunedau Ffyniannus** .......... **21**
- **Yr Economi** .......... **24**
- **Addysg a Sgiliau** .......... **26**
- **Cefnogi Pobl mewn Angen Ariannol** .......... **28**
- **Cartrefi a Chymunedau** .......... **31**
- **Yr Iaith Gymraeg** .......... **33**
- **Amgylchedd Cynaliadwy** .......... **34**

**Creu'r Cysylltiadau** .......... **35**


DRAFT

**CYFLWYNIAD**

Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yw hwn, sy'n ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer y ddwy sir.

Diben y Cynllun yw gweithio ynghyd er mwyn gwella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y 12 mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun yn amlinellu'r weledigaeth a'r camau blaenoriaeth ar gyfer y 4 blynedd nesaf yn wyneb heriau aruthrol.

Bydd y cynlluniau gweithredu gogyfer â phob amcan strategol yn cael eu mesur a'u hadolygu er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r pethau cywir ac yn gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â materion cymhleth na fyddai modd i un sefydliad eu datrys yn gweithio ar ei ben ei hun, felly cafodd y cynllun ei greu mewn partneriaeth, gan gymryd mewnbwn gan bartneriaid, defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a thrigolion.

Mae'r ddogfen newydd hon yn cymryd lle nifer o fentrau partneriaethol gwahanol yn y ddwy sir, sef:

- Y Strategaeth Gymunedol
- Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Y Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles
- Y Cynllun Diogelwch Cymunedol

Mae manylion y Strategaethau Cymunedol blaenorol i'w gweld yma:

Ein Hynys Ein Dyfodol - Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn
Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd - Strategaeth Gymunedol Gwynedd
Mae cyswllt rhwng y cynllun hwn â Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd y ddwy sir

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys llawer o brif flaenoriaethau'r strategaethau blaenorol ond mae'r ddogfen hefyd yn adnewyddu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd newydd yng nghyd-destun sefyllfa ariannol heriol.

**Gwynedd ac Ynys Môn**

Mae'r cynllun hwn yn un ar gyfer ardal unigryw. Mae gan Wynedd ac Ynys Môn amgylchedd naturiol nodedig, yn enwedig yr arfordir a'r mynyddoedd sy'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.
Mae cyfran fawr o'r ardal wedi'i dynodi yn ardal o harddwch naturiol eithriadol, ac mae rhan sylweddol o diriogaeth Gwynedd dan ofal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth yr ardal yn ddwyieithog. Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg ym mywyd cymunedau'r ardal.

DRAFT

Gellir disgrifio rhannau helaeth o'r ardal fel rhai gwledig, ac mae'r dwysedd poblogaeth uchaf gyda glannau'r afon Menai. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf eu maint hefyd wedi eu lleoli yno, gan gynnwys Ysbyty Gwynedd a Phrifysgol Bangor.

Mae economi'r ardal yn fregus, gydag incwm cyfartalog cymharol isel. Ystyrir bod y sectorau traddodiadol yn bwysig gan gynnwys twristiaeth, amaethyddiaeth a'r gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig addysg, a gwasanaethau gofal ac iechyd.

Disgwylir y bydd nifer o ddatblygiadau newydd, megis Gorsaf Ynni'r Wylfa a Pharc Gwyddoniaeth Menai yn cael effaith hirdymor ar economi'r ardal. Mae'r rhain yn gyfleoedd pwysig y bydd angen gwneud buddsoddiadau sylweddol o ran isadeiledd ar eu cyfer a byddant yn dod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig yn eu sgil yn ogystal â heriau. Mae'r cynllun hwn yn anelu at hwyluso datblygiad cynaliadwy'r prosiectau hyn yn ogystal â diogelu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol unigryw'r ardal.

Mae proffil demograffig yr ardal yn un heriol: mae'r boblogaeth yn heneiddio ac mae llawer o bobl ifanc yn gadael yr ardal i chwilio am waith.

**GWELEDIGAETH**

Yn 2012 cynhaliodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn arolygon preswylwyr a oedd yn darparu mewnbwn gwerthfawr i'r broses o asesu beth oedd y ffactorau pwysicaf er mwyn gwella bywyd yn y ddwy sir. Y ffactorau hynny oedd

- swyddi a chyfleoedd gwaith
- gwasanaethau iechyd
- lefelau isel o droseddu
- cyfleoedd addysg
- mynd i'r afael â thlodi
- tai fforddiadwy
- cefnogi pobl sy'n agored i niwed

Mae hyn wedi bod o gymorth i ni lunio gweledigaeth ar y cyd:


***Gweithio gyda'n gilydd i Gryfhau cymunedau Gwynedd ac Ynys Môn***

Cynhaliom asesiad o anghenion yr ardal gyfan a dynodi amcanion allweddol er mwyn cyflawni'r nod hwn:

***Yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud Gwynedd ac Ynys Môn yn llefydd iach, diogel a llewyrchus i fyw a gweithio ynddynt.***

Dyma ein canlyniadau - y pethau yr ydym eisiau eu cyflawni.
Y canlyniadau hyn fydd yn sail i'r cynllun hwn ac mae nifer o flaenoriaethau wedi cael eu dynodi er mwyn eu cyflawni.

**Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn**




**Cymunedau Ffyniannus**

- Mae pobl yn derbyn cymorth effeithiol i gyflawni eu potensial
- Mae cymunedau yn gydlynol ac yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion mewn angen
- Mae gan bobl sgiliau perthnasol i gael gwaith
- Mae pobl mewn angen ariannol yn derbyn cefnogaeth a chyngor da
- Caiff manteision cysyniad yr Ynys Ynni eu huchafu ar gyfer pobl leol
- Mae gan bobl fynediad at dai fforddiadwy
- Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Caiff twf busnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth ei annog

**Cymunedau Iach**

- Mae pobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn iach ac yn egnïol
- Mae cymunedau'n fwy annibynnol ac yn gallu rheoli eu lles eu hunain
- Mae llai o bobl yn ysmygu
- Mae gan ragor o bobl bwysau iach
- Mae plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i ddiwallu eu hanghenion
- Mae oedolion yn byw'n annibynnol yn eu cymuned
- Mae gan blant a phobl ifanc fynediad at weithgareddau chwarae, hamdden a chwaraeon

**Cymunedau Diogel**

- Gall y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig fod yn hyderus o dderbyn cymorth ac ymateb priodol pan fo angen
- Rhoddir y sylw priodol i Gam-drin Domestig fel trosedd annerbyniol yn ein cymunedau
- Mae cefnogaeth a gwasanaethau ar gael i bobl sy'n camddefnyddio alcohol a / neu gyffuriau
- Mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i leihau effeithiau camddefnyddio alcohol a sylweddau yn ein cymunedau
- Mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau

DRAFFT

- Byddwn yn diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, mewn angen neu mewn perygl

**Yr her sy'n ein hwynebu**

Fe wyddom y bydd llawer llai o adnoddau ar gael i sefydliadau yn y blynyddoedd nesaf.
Am y rheswm hwn, rhaid rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gwasanaethau, ar wasanaethau ataliol, ac ar ymyrraeth gynnar.
Mae angen i ni weithio'n ddoethach, gan ddileu dyblygu a gwastraff, a gwneud gwell defnydd o adnoddau cymunedol.

**Sut fyddwn ni'n mynd i'r afael â'r heriau ac yn gwneud gwahaniaeth?**

Bwriad y prosiectau a gaiff eu rhoi ar waith i wireddu'r cynllun hwn yw gwella'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Un o'r prif ffyrdd o gyflawni hyn fydd dileu anghydraddoldebau rhwng cymunedau a'i gilydd gymaint ag y bo modd.

Mae ymdrechion eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â materion neu broblemau unigol sy'n effeithio ar gymunedau. Bydd y cynllun hwn yn ychwanegu gwerth drwy dargedu ffactorau cyfrannol ehangach er mwyn gwneud cymunedau'n llefydd diogel, iach a ffyniannus.

Wrth reoli perfformiad y cynllun hwn, felly, byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth.

**Gweithio ar y cyd**

Mae gweithio gyda'n gilydd yn ganolog i'r cynllun hwn ac oherwydd natur gymhleth y materion sydd wedi eu dynodi, rydym yn sylweddoli na all unrhyw sefydliad fynd i'r afael â'r materion hyn ar eu pen eu hunain.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gydag unigolion a'u cymunedau i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau eu hunain. Mae'r cysyniad o gyd-gynhyrchu ac o sicrhau cydlynant cymunedol yn ganolog i wireddu ein gweledigaeth wrth i ni gynorthwyo pobl i ofalu am eu hanghenion eu hunain.

Ein nod yw ymateb i anghenion y boblogaeth a sicrhau bod trigolion a chymunedau yn ganolog i gynllunio a gweithredu. Sefydlwyd yr amcanion hyn drwy gasglu sylfaen dystiolaeth gadarn a thrwy ymgynghori ag ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion.

**Y MATERION PWYSIG**

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y materion pwysig sy'n effeithio ar ein cymunedau, yn seiliedig ar asesiad anghenion cynhwysfawr, er mwyn cyflawni canlyniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth.

Bydd ein cynlluniau gweithredu dros y blynyddoedd nesaf yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o'r prif faterion cymhleth a hirdymor trwy:



DRAFFT

- Sicrhau y caiff adnoddau cynyddol brin y gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio ar gyfer yr hyn sydd o'r lles mwyaf
- Cynorthwyo unigolion a chymunedau i fod yn gryf ac yn wydn a bod â llai o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus
- Gwella perfformiad economaidd a sgiliau i greu / cynnal swyddi, gan bwysleisio cyfleoedd dysgu gydol oes, yn enwedig Cynllun yr Ynys Ynni
- Galluogi cymunedau ac unigolion i gynnal a datblygu eu hannibyniaeth
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc
- Lleihau tlodi a darparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed.
- Hyrwyddo a chynnal ein hamgylchedd
- Hyrwyddo a chynnal ein diwylliant cyfoethog, gan gynnwys yr iaith Gymraeg

**Egwyddorion**

Mae nifer o themâu cyffredin o fewn y Cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio ar y pethau canlynol:

- Datblygu Cynaliadwy - gweithio wrth fod yn ymwybodol o fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Ymyrraeth gynnar a chamau ataliol - gyda'r bwriad o atal sefyllfaoedd rhag dirywio, neu'n well fyth, rhag digwydd yn y lle cyntaf
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau - drwy osgoi dyblygu neu drwy wneud pethau'n wahanol ac yn fwy effeithiol mewn partneriaeth
  Targedu adnoddau e.e. mynd i'r afael ag anghydraddoldeb pan fo angen cymorth penodol ar rai grwpiau penodol neu rai ardaloedd o fewn yr ardal. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau, yn enwedig Cymunedau'n Gyntaf i'n cynorthwyo yn hyn o beth
- Bod â gweithlu medrus - o fewn y sefydliadau partner. Fe wyddom er mwyn gweithredu'r cynlluniau hyn, fod angen i'n gweledigaeth gynnwys newid diwylliant, a bod angen cydlynu pobl ymrwymedig yn well er mwyn sicrhau newid. Mae hefyd angen datblygu sgiliau pobl fel eu bod yn gwneud y gorau o gyfleoedd gwaith a all ddatblygu yn y dyfodol

DRAFFT

**Creu'r Cysylltiadau**

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion pwysig sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun hwn, ein bwriad yw gwireddu nifer o ganlyniadau pwysig o dan themâu **Cymunedau Ffyniannus, Diogel ac Iach**.

Mae gwireddu'r canlyniadau hyn yn golygu cael effaith gadarnhaol ar ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r blaenoriaethau o dan y themâu hyn yn aml yn gyd-ddibynnol ac yn aml yn cefnogi ei gilydd. Rydym yn cydnabod bod nifer o flaenoriaethau yn gorgyffwrdd ac mae angen i ni osgoi delio â materion fesul un.

**Cynlluniau Gweithredu a mesur yr hyn sy'n cael ei wneud**

Mae cynlluniau cychwynnol wedi cael eu llunio er mwyn cefnogi'r gwaith o dan themâu Diogelwch, Iechyd a Ffyniant. Caiff manylion pellach eu datblygu dros y misoedd nesaf a fydd yn ffurfio sail ar gyfer rhaglen waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn**

Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n arwain ar y gwaith partneriaethol a wneir gan Wynedd ac Ynys Môn yn y ddwy sir. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol ar gyfer y Cynllun Integredig ac ar gyfer y gwaith a wneir ar y cyd o fewn yr ardal.

Mae Bwrdd Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn monitro perfformiad pob maes ac yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ôl y gofyn.

Mae grwpiau thematig yn gofalu am weithgareddau ym meysydd Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc, ac maent yn gyfrifol am weithredu cynlluniau penodol ac am adrodd i'r Bwrdd Cyflawni. Bydd grwpiau eraill yn cael eu comisiynu i gyflawni gogyfer â chanlyniadau penodol yn ôl yr angen.

Mae gan y bartneriaeth dîm cymorth sydd wedi eu lleoli yn y ddwy sir.

I gysylltu â'r Bartneriaeth cysylltwch â:

partneriaeth@gwynedd.gov.uk

Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Adeilad Mona
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH

Neu
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn

DRAFFT

Mae arweinwyr o’r sefydliadau canlynol yn rhan o’r Bwrdd:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Prifysgol Bangor
- Coleg Menai
- Medrwn Môn
- Mantell Gwynedd
- Un Llais Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth ar gael ar wefan Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

## Sut beth fydd llwyddiant?

Ni fyddwn yn cael gwared yn llwyr ar droseddu, nac yn amddiffyn pawb rhag niwed, ond gallwn dargedu ein hadnoddau ar feysydd allweddol lle byddant yn cael yr effaith fwyaf posibl. Rydym eisiau gwneud ein cymunedau yn gryfach, yn fwy gwydn ac yn fwy cydlynol.

Rydym yn benderfynol o weld cymdeithas o fewn 10 i 15 mlynedd ag ynddi lai o achosion o drosedd, llai o broblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, lle mae plant yn ddiogel ac yn cyflawni eu potensial, ac oedolion yn byw heb fod wedi eu bygwth â niwed corfforol neu emosiynol.

Mae'r bwlch rhwng iechyd y bobl sy'n byw yn ardaloedd cyfoethocaf a thlotaf yr ardal yn enfawr. Nid yw'n dderbyniol bod cymaint ag 20 mlynedd o wahaniaeth yn bodoli yn nisgwyliad oed y sawl sy'n byw heb salwch neu anabledd yn seiliedig ar ble maent yn byw.

Rydym eisiau lleihau'r bwlch hwn yn sylweddol dros y 10 i 15 mlynedd nesaf a pharhau i wella disgwyliad oes pawb yn yr ardal. Mae arnom angen gweld cymunedau’n elwa o fyw bywydau iachach, trwy leihau faint sy’n ysmygu ac yn ordew, cynyddu’r nifer sy’n gwneud gweithgarwch corfforol a gwella iechyd meddwl.

Bydd teuluoedd ac oedolion sy'n agored i niwed ac yn dioddef o unrhyw gyflwr corfforol neu feddyliol yn cael cymorth i fyw'n annibynnol a bydd gan bawb yr hawl i gael gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel. Byddwn yn canolbwyntio ar atal afiechyd trwy edrych ar gyfleoedd i ymyrryd yn gynharach i roi cymorth i unigolion a theuluoedd.

DRAFT

Ystyrir bod addysg yn un o'r prif ffyrdd o ehangu cyfleoedd i helpu pobl dan anfantais i ddianc rhag tlodi. Mae'n arwain at gyfleoedd i dorri'r cylch amddifadedd sy'n llyffetheirio llawer o deuluoedd. Am y rheswm hwn mae angen i gyflawniad ysgolion barhau i wella. Mae angen cymuned fusnes llewyrchus a llwybrau clir at gyflogaeth.

Mae arnom angen lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi.
Dylem sicrhau y gall pobl fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy, mewn amgylchedd sy'n gynaliadwy.

Mae 3 chanlyniad allweddol eisoes wedi cael eu cyflwyno ar gyfer ein Gweledigaeth:
***Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn***

**Cymunedau Ffyniannus**
**Cymunedau Iach**
**Cymunedau Diogel**

Mae'r bennod nesaf yn manylu ar bob canlyniad ac yn disgrifio

- **Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd** – gan grynhoi prif ganfyddiadau'r asesiad o anghenion

Beth yw'r blaenoriaethau sydd angen sylw, a hefyd yn gofyn:

- **Beth fydd yn cael ei wneud?**
- **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

DRAFFT

## Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn

### *Cymunedau Iach*

**Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?**

- Mae plant yn cael dechrau da mewn bywyd
- Atal afiechyd ac annog byw'n iach a gweithgar
- Plant a theuluoedd yn derbyn ymyrraeth gynnar i ddiwallu eu hanghenion
- Oedolion fyw'n annibynnol yn eu cymuned
- Mae pobl o oedran gweithio sicrhau bywyd gweithiol iachus sy'n rhoi boddhad
- Pobl ag anableddau a chyflyrau cronig , yn cael yr ansawdd bywyd gorau posibl
- Gwella lles emosiynol ac yn dda iechyd meddwl cadarnhaol
- Gwella mynediad pobl at wasanaethau lles yn agos at ble maent yn byw iechyd a
- Gofalwyr yn byw bywydau llawn a gweithgar

**Prif Ffeithiau**

- Mae poblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn byw yn hirach , yn unol â chyfartaledd disgwyliad oes yng Nghymru . Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn byw tua 7 mlynedd yn llai na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf cefnog .
- Mae 25% o oedolion yn Ynys Môn a 22% Ngwynedd yn ysmygu o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 23% (Arolwg Iechyd Cymru 2011-12).
- Mae 54% o oedolion yn Ynys Môn a 55% yng Ngwynedd dros eu pwysau neu'n ordew (cyfartaledd Cymru: 58%) .
- Mae llai nag un rhan o dair o bobl yn y ddwy sir bwyta'r swm a argymhellir o 5 dogn o ffrwythau a llysiau mewn diwrnod .
- Mae 41% o oedolion yn Ynys Môn a 43% yng Ngwynedd yn yfed mwy na’r gyfradd alcohol dyddiol a argymhellir (cyfartaledd Cymru : 43% )
- Mae cyfraddau beichiogi yn eu harddegau wedi bod yn gostwng yn gyffredinol yng Ngwynedd ac Ynys Môn dros y blynyddoedd diwethaf . Yn 201, roedd nifer y beichiogi mewn merched ifanc rhwng 15-17 oed ym Môn yn 37.8 fesul 1000 o ferched a 37.0 yng Ngwynedd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 34.2.
- Chlamydia yw'r haint a drosglwyddir yn rhywiol sydd a’r diagnosis mwyaf cyffredin yng Nghymru gyda chyfraddau yn parhau i ostwng yn dilyn uchafswm yn 2008 . Mae nifer yr achosion o gonorea hefyd wedi gostwng ar ôl uchafbwynt yn 2009. Mae cyfraddau heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar eu huchaf ymhlith y rhai o dan 24 oed .
- Mae canran y genedigaethau pwysau geni isel yn Ynys Môn (7.4%) yn uwch na chyfartaledd Cymru yng Nghymru (6.8%) ac yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (6.3%).
- Mae cyfraddau Gwynedd ac Ynys Môn yn gyson yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 95% , ar gyfer pob brechiadau plentyndod ac eithrio MMR dos cyntaf a'r ail , nad yw wedi ei gyrraedd yn lleol nac yn genedlaethol Nid yw Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn cyrraedd y targed brechu rhag

y ffliw 75% ymhlith pobl 65 oed a tharged o 50% oed ymhlith grwpiau ' mewn perygl' yn y blynyddoedd diwethaf
• Mae Arolwg Iechyd Cymru 2011-12 yn dangos bod 8% o drigolion ar Ynys Môn yn cael ei drin ar hyn o bryd am salwch meddwl a 6% yng Ngwynedd, sy’n is na chyfartaledd Cymru o 11%.
• Mae nifer y bobl sy'n darparu gofal di-dâl yng Ngwynedd wedi cynyddu o 11,247 yn 2001 i 12,443 yn 2011 (1,192 o bobl neu 10.6%). Mae 10.2% o boblogaeth y sir yn darparu gofal di-dâl . Mae Ynys Môn hefyd wedi gweld cynnydd , o 7,220 yn 2001 i 8,042 yn 2011 (822 o bobl neu 11.4%). Mae 11.5% o boblogaeth Ynys Môn yn darparu gofal di-dâl . Rhagwelir y bydd cynnydd o 12% yn y nifer o ofalwyr di-dâl 65 + yn ystod y 5 mlynedd nesaf oed . Bydd cynnydd yn y nifer o ofalwyr sy'n heneiddio bosibl, ni fydd yn gallu i barhau i ofalu yn golygu cynnydd yn y nifer o bobl a fydd yn angen cefnogaeth a chymorth gan ofalwyr ffurfiol (cyflogedig).
• Fe nododd 20.5% o boblogaeth Gwynedd eu bod yn cael problemau iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ychydig neu lawer ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau . Yn Ynys Môn , 16,112 o bobl (23.1% o'r boblogaeth) a nododd hyn.
• Dywedodd 30% o oedolion yn Ynys Môn a Gwynedd bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd / anabledd, gan gynnwys 12% yng Ngwynedd a 12% yn Ynys Môn a nododd eu bod yn gyfyngedig 'iawn'.
• Oherwydd y boblogaeth hŷn gynyddol, amcangyfrifir bod y nifer o bobl sydd â dementia yn mynd i gynyddu o 33% erbyn y flwyddyn 2021; Gwynedd o 1,719 i 2,325 ac Ynys Môn o 905 i 1,223.

## *Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth ?*

**Ffordd o Fyw iach**

**Cynnydd o ran:**

Byw’n iach ac actif i leihau salwch
Gweithgaredd corfforol
‘Pump y diwrnod’
Iechyd a lles meddwl ac emosiynol da
Cyfraddau imiwneiddiad
Disgwyliad oes mewn ardaloedd difreintiedig

**Gostyngiad mewn:**

Nifer o bobl sy’n ordew neu dros eu pwysau
Pobl sy’n ysmygu
Yfed uwchben cyfraddau a argymhellir
Derbyniadau ysbyty o ganlyniad i alcohol a chyffuriau
Beichiogi mewn merched yn eu harddegau
Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

DRAFT

**Hyrwyddo Annibyniaeth**

**Cynnydd o ran:**

Plant a theuluoedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar ar gyfer eu hanghenion
Pobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn yr ysgol
Cefnogaeth addas i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau, cyflyrau tymor hir neu anghenion arbennig
Oedolion sy'n byw'n annibynnol ac yn byw bywydau llawn yn eu cymunedau
Pobl a'r wybodaeth, sgiliau a'r hyder i edrych ar ôl eu hunain a rheoli cyflyrau tymor hir
Gwasanaethau iechyd, gofal a lles sydd wedi eu hintegreiddio ac yn hawdd cael mynediad atynt
Grwpiau cefnogi, cyd-gynhyrchu cymunedol a mentrau bancio amser

**Gostyngiad mewn:**

Babanod yn cael eu geni o dan 2500 gram
Teuluoedd yn byw mewn tlodi
Lleihad yn y nifer o bobl dros 65 sy'n mynd i'r ysbyty i gael gofal heb ei drefnu neu'n gorfod ail-fynychu'r ysbyty, gan gynnwys achosion o syrthio

**Cyflyrau cronig**

**Cynnydd o ran:**

Y safon byw uchaf posibl ar gyfer pobl ag anableddau neu gyflyrau cronig
Gwell mynediad at wasanaethau iechyd a lles ble mae pobl yn byw
Mwy o bobl sydd ar ddiwedd eu bywyd yn derbyn gofal ble maen nhw'n dewis ei dderbyn
Cefnogaeth addas i ofalwyr i fyw bywydau llawn a llesol

**Gostyngiad mewn:**

Pobl yn nodi fod ganddynt gyflyrau tymor hir sy'n eu cyfyngu
Lefelau dibyniaeth yn dilyn gwasanaeth ail-alluogi

DRAFFT

## *Cymunedau Diogel*

| **_Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?_** |
| --- |
| Bod y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig yn gallu bod yn hyderus o dderbyn cymorth ac ymateb priodol pan fo angen<br>Bod sylw priodol yn cael ei roi i Gam-drin Domestig fel trosedd annerbyniol yn ein cymunedau<br>Bod cefnogaeth a gwasanaethau ar gael i bobl sy'n camddefnyddio alcohol a / neu gyffuriau<br>Bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i leihau effeithiau camddefnyddio alcohol a sylweddau yn ein cymunedau<br>Bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau<br>Bod plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, mewn angen neu mewn perygl yn cael ei diogelu |

### ***Prif Ffeithiau***

Syrthiodd lefelau troseddau a gofnodwyd yn Ynys Môn a Gwynedd 0 19 % yn 2012/11 o'i gymharu â 2011/12. Niwed troseddol, llosgi bwriadol a dwyn yw'r categorïau trosedd uchaf a gofnodwyd dros y 4 mlynedd ddiwethaf.

Mae 42% o boblogaeth oedolion Ynys Môn a 43% yng Ngwynedd yn yfed mwy na'r terfyn a argymhellir.

Ar gyfartaledd, cofnodir 76 o achosion o gam-drin domestig bob mis. Caiff troseddau megis cam-drin domestig yn aml eu cuddio oddi wrth y gymuned. Amcangyfrifir mai dim ond 2% o'r achosion o gam-drin domestig yr adroddir amdanynt wrth yr heddlu. Gallai hyn olygu bod y ffigyrau gwirioneddol yn uwch.

Bu 16% o ostyngiad/gynnydd mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng 2011/12 a 2012/13.

Ers 2008, bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant

At ei gilydd, mae lefel y troseddau sydd wedi eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd yn isel o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Cwympodd trosedd gan 8% yn y deuddeg mis diwethaf, sef 709 yn llai o droseddau na'r flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn newyddion da, ond mae'n bwysig bod pobl hefyd yn teimlo'n ddiogel wrth fyw yn Ynys Môn a Gwynedd. Canfu arolwg byr fod 43 % yn teimlo'n "ddiogel iawn" yn eu cartref yn Ynys Môn a dywedodd 53% eu bod yn teimlo yn 'ddiogel iawn' yn eu cymunedau un ystod y dydd gyda'r ffigwr yn gostwng i 18% gyda'r nos. Yng Ngwynedd roedd 66% yn teimlo yn 'ddiogel iawn' yn eu cartrefi a

66% yn teimlo yn ‘ddiogel iawn’ yn eu cymunedau yn ystod y dydd gyda’r ffigwr yn gostwng i 35% gyda’r nos. Gallai hyn fod oherwydd bod rhai troseddau’n broblem gudd.

Mae camddefnyddio sylweddau yn fater cudd hefyd. Yn anaml iawn y bydd pobl yn cyfaddef eu bod yn defnyddio cyffuriau gan fod llawer o’r cyffuriau hynny yn anghyfreithlon a bod y rhan fwyaf o bobl yn tueddu i synied yn rhy isel am faint y maent yn ei yfed, a all fod yn beryglus iddyn nhw eu hunain ac i’w cymunedau. Mae pobl sy’n yfed neu’n defnyddio cyffuriau yn gyhoeddus yn gwneud i bobl deimlo'n anniogel, gyda thros hanner y bobl ifanc a holwyd yn dweud mai dyma’r prif reswm nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Gall bod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol gynyddu tebygolrwydd troseddau megis difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau treisgar. Gall alcohol, yn enwedig, achosi gwrthdaro a chynyddu’r bygythiad o drais difrifol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn broblem yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd o ddifreintedd uchel.

Mae cadw pobl yn ddiogel yn golygu amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag niwed. Mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi cynyddu, gyda 100 yn Ynys Môn yn 2012/13 o gymharu â 77 yn 2011/12 a 62 a 70 yng Ngwynedd dros yr un cyfnod. Bu i nifer y plant sy'n derbyn gofal gan gynghorau Ynys Môn a Gwynedd barhau i godi rhwng 2007 a 2012.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon mae’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i'r materion canlynol:

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol olygu gwahanol bethau i wahanol bobl; gan amrywio o fandaliaeth a graffiti i ymddygiad stwrllyd neu droseddau casineb, bwlio ac aflonyddu. Ond mewn gwirionedd, mae'n golygu unrhyw fath o weithgaredd ymosodol, bygythiol neu ddinistriol sy'n niweidio ansawdd bywyd person arall.

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**

Bod llai o bobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol ac at ei gilydd bod pryder y cyhoedd yn ei gylch yn gostwng

Er bod Heddlu Gogledd Cymru at ei gilydd wedi cofnodi llai o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cymunedau lle mae’r math hwn o ymddygiad yn digwydd yn amlach nag mewn ardaloedd eraill. Dengys y data mai canol trefi, megis Bangor, Caernarfon a Llangefni yw'r mannau yr effeithir arnynt waethaf.

**Beth fyddwn ni’n ei wneud?**

Gweithio mewn partneriaeth(au) er mwyn adnabod y dioddefwyr sydd fwyaf agored i niwed oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Defnyddio grwpiau pennu tasgau penodol

DRAFFT

Targedu'r ardaloedd hynny yr effeithir arnynt waethaf gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gweithio ar y cyd i ddatrys problemau yn yr ardaloedd hynny

Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r dioddefwyr hynny sydd fwyaf agored i niwed neu sydd wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol sawl gwaith.

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

Byddwn yn edrych ar yr wybodaeth ganlynol:

Nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr Heddlu (cesglir gan ddadansoddwyr yr Heddlu)
Nifer y grwpiau datrys problemau sy'n effeithiol (cesglir gan y cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)
Byddwn hefyd yn dechrau casglu gwybodaeth a fydd yn rhoi gwybod i ni os ydym yn helpu dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis:

Nifer y rhai sy'n agored i niwed / sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol sawl gwaith nad ydynt yn ei brofi mwyach o ganlyniad i gefnogaeth a ddarperir.

**Camddefnyddio Sylweddau**

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**
**Bod llai o bobl yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn Ynys Môn a Gwynedd**

Mae camddefnyddio sylweddau yn gysylltiedig â bod rhywun o dan ddylanwad, ac yn cymryd gormod o sylweddau yn rheolaidd ac / neu yn ddibynnol ar sylwedd. Yr hyn sy'n cael ei gamddefnyddio yn fwyaf cyffredin yn Ynys Môn a Gwynedd yw alcohol.

Gall pobl sy'n camddefnyddio sylweddau achosi niwed i'w hunain ac i'w cymunedau. Mae tystiolaeth i awgrymu y gall alcohol a chyffuriau fod yn ffactorau mewn gweithgarwch troseddol, a bod cysylltiad rhwng eu defnydd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a difrod troseddol. Mae camddefnyddio sylweddau hefyd yn fater difrifol o ran iechyd.

Amcangyfrifir bod cost camddefnyddio alcohol a chyffuriau Dosbarth A i economi Cymru yn £2 biliwn y flwyddyn. Mae lleihau nifer y bobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Datblygu Strategaeth Comisiynu Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n dynodi angen ac yn rhoi sail ar gyfer comisiynu darpariaeth cyffuriau ac alcohol effeithiol.

Rhesymoli fframweithiau presennol er mwyn cefnogi 'Bwrdd Cynllunio Ardal' ar gyfer Gogledd Cymru.



DRAFFT

Byddwn yn cyflawni'r uchod drwy weithio gydag asiantaethau, y sector statudol a'r trydydd sector, o fewn fframwaith partneriaethol.
Mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag yfed yn gyfrifol gan ddefnyddio:

- Deddfwriaeth trwyddedu newydd
- Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth alcohol
- Polisïau alcohol yn y gweithle
- Profi gweithgarwch prynu (yfed dan oed)
- Gweithgarwch gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o fewn ysgolion

Darparu gwasanaethau effeithiol ar draws Gogledd Cymru drwy gyfrwng "Bwrdd Cynllunio Ardal" gyda’r bwriad o atal a thrin camddefnydd o alcohol a chyffuriau.

Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, gyda'r bwriad o leihau troseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a gwella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

Hyfforddi staff i helpu rhagor o bobl i leihau faint o alcohol y maent yn ei yfed;

Codi ymwybyddiaeth o'r niwed a achosir gan oryfed mewn pyliau a gweithio tuag at newid agweddau plant a phobl ifanc, yn arbennig, drwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau a thrwy addysg;

Rheoli argaeledd alcohol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ardaloedd yn ddiogel, trwy drwyddedu alcohol, yn enwedig yn hwyr yn y nos, a mynd i'r afael â gwerthu alcohol i unigolion dan oed.

**Sut fyddwn ni’n gwybod ein bod ni’n gwneud gwahaniaeth?**

Mesur nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn rhaglenni triniaeth

Y nifer sy'n derbyn triniaethau o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer amseroedd aros

Nifer y bobl sy'n gadael triniaeth

Defnyddio ‘Proffiliau Canlyniad Triniaeth’ i fesur canlyniadau cadarnhaol unigolion sy’n derbyn triniaeth (Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru)

Fel Bwrdd Cynllunio Ardal yng Ngogledd Cymru, mabwysiadu'r model darparu 'adfer' ar gyfer pobl sy'n chwilio am gefnogaeth ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (Strategaeth Comisiynu)

Canran (%) yr oedolion sy'n yfed mwy o alcohol na'r canllawiau h.y. mwy nag 14 uned yr wythnos i ferched, a 21 uned yr wythnos i ddynion.

Canran (%) yr oedolion sy’n dweud eu bod wedi goryfed mewn pyliau ar o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Cyfradd derbyniadau i ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol (dynion / merched).

DRAFT

Cyfradd derbyniadau i ysbyty oherwydd cyffuriau.

Cyfradd marwolaethau oherwydd alcohol.

Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl rhyw.

**Cam-drin Domestig**

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**
**Bod llai o bobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn dioddef cam-drin domestig**

Mae'r term "cam-drin domestig" yn cwmpasu ystod o wahanol bethau. Caiff ei ddiffinio yn fras fel unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad bygythiol, treisiol neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol). Caiff ei ddefnyddio fel arfer i ddisgrifio trais neu gam-drin rhwng rhai sy'n 16 oed a throsodd, sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb. Mae hefyd yn cynnwys trais yn seiliedig ar 'anrhydedd', enwaedu merched a phriodasau dan orfod. Gall hyn gynnwys ynysu rhywun oddi wrth y rhai sy'n rhoi cymorth iddynt, gorfodi rheolaeth dros arian neu fwyd neu achosi difrod i eiddo neu gartref rhywun.

Yn aml bydd yn drosedd gudd, amcangyfrifir mai dim ond 2% o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd wrth yr Heddlu. Mae hefyd yn drosedd ddifrifol iawn, caiff o leiaf ddwy ferch yr wythnos eu lladd gan bartner neu gynbartner yn y Deyrnas Unedig. Mae'r data'n dangos bod cam-drin domestig yn broblem yn Ynys Môn a Gwynedd, gyda nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Mae nifer o'r dioddefwyr yn fenywod a naill ai yn feichiog neu â phlant, ac yn aml bydd plant yn dystion i'r gamdriniaeth.

Fel sefydliadau partner, rydym wedi gwneud llawer o waith er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau posibl i ddioddefwyr a'u teuluoedd, ac rydym wedi chwarae rhan allweddol ym mhrosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, Llywodraeth Cymru, ond mae gwaith o hyd i'w wneud i leihau nifer yr unigolion a'r teuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig yn Ynys Môn a Gwynedd.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Gweithio'n rhanbarthol o fewn fforwm Trais Domestig / Trais Rhywiol Gogledd Cymru i gynllunio gweithgarwch sy'n mynd i'r afael â'r troseddau hyn

Darparu gweithgareddau mewn ysgolion sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â pherthnasau iach a throseddau rhywiol

Darparu cynadleddau asesu risg amlasiantaethol effeithiol sy'n darparu cynlluniau amlasiantaethol er mwyn diogelu dioddefwyr cam-drin domestig

Sicrhau cefnogaeth arbenigol ar ffurf cynghorwyr (Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig) ar gyfer dioddefwyr y mae iddynt risg uchel o ddioddef Cam-drin Domestig

Datblygu ymhellach, fel y bo adnoddau'n caniatáu, y siopau un stop ar gyfer Cam-drin Domestig yng Ngwynedd (Dolgellau) ac Ynys Môn (Llangefni)

Rhoi polisïau ar waith yn y gweithle ar gyfer Cam-drin Domestig o fewn gwasanaethau statudol ar draws Gogledd Cymru

Parhau i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau

Datblygu Fforwm Cam-drin Domestig newydd yng Ngwynedd a Môn

Gwneud darpariaeth arbenigol i ymchwilio i drais rhywiol o fewn yr Heddlu

Gweithio ar draws Gogledd Cymru i weithredu mentrau 10,000 o Fywydau Diogelach, Llywodraeth Cymru

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

- Nifer y bobl a gyfeiriwyd at Gynadleddau Asesu Risg amlasiantaethol
- Nifer y bobl sy'n derbyn darpariaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig
- Nifer yr erlyniadau llwyddiannus yn y llys gogyfer â throseddau Cam-drin Domestig
- Nifer yr erlyniadau llwyddiannus yn y llys gogyfer â throseddau Trais Rhywiol
- Nifer y bobl sy'n defnyddio'r siopau un stop

**Diogelu**

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**
**Bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu rhag niwed**

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn golygu eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth, gan atal unrhyw amhariad i'w hiechyd a sicrhau eu bod yn derbyn gofal mewn modd diogel ac effeithiol.

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gysylltiedig â llawer o'r blaenoriaethau eraill o fewn y Cynllun hwn. Mae'n gyfrifoldeb cyfun ar bob sefydliad cyhoeddus a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd. Mae gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant gyfrifoldebau clir i sicrhau y rhoir sylw i'r materion hyn ac i sicrhau ein bod i gyd yn gwneud ein rhan.

Mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn amrywio, gyda 100 yn Ynys Môn a 70 yng Ngwynedd yn 2012/13 o'i gymharu â 77 a 62 yn y drefn honno dros yr un cyfnod. Y prif resymau dros gofrestru yw cam-drin sylweddau a thrais domestig.

DRAFFT

Mae amddiffyn oedolion sydd mewn perygl yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae nifer yr atgyfeiriadau, pan mai cam-drin corfforol yw'r prif reswm dros atgyfeirio, wedi codi'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod diogelu wrth wraidd yr holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc drwy, er enghraifft:

Dod o hyd i'r ffyrdd gorau o ymdrin ag achosion o esgeuluso plant o fewn y teulu;

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â cham-drin plant a sut y gallent helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, yn y cartref ac yn y gymuned, trwy, er enghraifft:

Darparu amrywiaeth o wybodaeth am amddiffyn plant mewn mannau megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden;

Gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod oedolion sydd mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed sylweddol, drwy, er enghraifft:

Hyfforddi staff o wahanol sefydliadau ynglŷn â'u swyddogaeth o ran diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

Gwrando ar farn oedolion ar y ffordd orau y gallwn eu hamddiffyn.

Gwrando ar farn plant er mwyn i ni ddeall eu profiadau a deall sut y gallwn eu diogelu yn y modd gorau posibl.

Codi ymwybyddiaeth yn y gymuned am yr hyn y gall pobl ei wneud i ddiogelu plant, oedolion a'u hunain rhag y risg o niwed sylweddol.

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

Byddwn yn edrych ar yr wybodaeth ganlynol:

Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Nifer y plant sy'n destun gorchymyn cofrestru amddiffyn plant am yr eildro o fewn 2 flynedd

Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal

Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed
Adborth oddi wrth blant ac oedolion ynglŷn â'u profiadau.

DRAFFT

## Cymunedau Ffyniannus

| **Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?** |
|---|
| Bod plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth effeithiol i gyflawni eu potensial<br>Bod gan ragor o bobl sgiliau perthnasol i gael gwaith<br>Bod pobl mewn angen ariannol yn derbyn cefnogaeth a chyngor da<br>Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i greu economi fwy ffyniannus a chynaliadwy<br>Bod manteision cysyniad yr Ynys Ynni yn cael eu huchafu ar gyfer pobl leol<br>Bod twf busnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth yn cael ei annog<br>Bod gostyngiad mewn allyriadau carbon<br>Bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu |

**Prif Ffeithiau**

**Gwaith**
Ymhlith t boblogaeth sydd rhwng 16 a 64 oed yng Ngwynedd, rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012 oed, roedd 21,400[1] yn economaidd anweithgar (29.1%) - cyfran uwch nag ar gyfer Cymru gyfan a'r Deyrnas Unedig, sydd â chanrannau o 27.0% a 23.6% yn y drefn honno. Fodd bynnag, yn Ynys Môn dros yr un cyfnod, roedd 10,000 yn economaidd anweithgar (24.4%) - cyfran is na Chymru ond ychydig yn uwch na'r Deyrnas Unedig. Yn Ynys Môn, dyma'r gyfran isaf yn y 7 mlynedd diwethaf.

**Cymwysterau a Sgiliau'r Gweithlu**
Mae'r ganran o boblogaeth Gwynedd sydd rhwng 16 a 64 oed a heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng o 15.7% i 13.4% rhwng 2004 a 2010. Fodd bynnag, roedd y ganran yn 2010 yn uwch na chanran Cymru am y tro cyntaf yn y cyfnod hwnnw. Dros yr un cyfnod, mae'r ganran yn Ynys Môn wedi gostwng o 16.8% i 12.2%.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn niwedd 2011, nid oedd gan 11.2% o'r bobl rhwng 16 a 64 oed yng Ngwynedd unrhyw gymwysterau, sydd ychydig yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sef 12.3%, ond fymryn yn uwch na'r gyfradd o 10.9% ar gyfer y Deyrnas Unedig[2]. Nid oedd gan 12.7% unrhyw gymwysterau yn Ynys Môn dros yr un cyfnod.

Dros yr un cyfnod, roedd gan 28.8% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yng Ngwynedd gymwysterau NVQ Lefel 4 neu uwch, gan roi Gwynedd yn y 10$^{fed}$ safle uchaf o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Yn Ynys Môn, roedd gan 26.4% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed gymwysterau NVQ Lefel 4 neu uwch, gan eu rhoi yn y 7$^{fed}$ safle isaf o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru[3].
Er hynny, mae cyflogwyr ar draws Gwynedd yn dweud bod diffyg sgiliau allweddol gan y rhai sy'n ymgeisio am swyddi. Soniodd 22.4% o'r busnesau a ymatebodd i Arolwg Busnes mwyaf diweddar Gwynedd iddynt wynebu problemau recriwtio - canran debyg iawn i'r cyfartaledd dros gyfnod y

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ebrill 2011-Mawrth 2012
[2] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[3] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

pedwar arolwg diwethaf (22.6%). Fodd bynnag, yn ystod yr arolwg diweddaraf, dywedodd 87.9% o'r busnesau a soniodd am broblemau recriwtio fod hyn oherwydd diffyg sgiliau / cymwysterau'r ymgeiswyr. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 80.1% dros gyfnod y pedwar arolwg diwethaf[4].

**Cyflogau**

Mae lefel cyflogau llawn amser Gwynedd 9.49% yn is na'r ffigwr ar gyfer y Deyrnas Unedig ac 1.48% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan[5].

Mae lefel cyflogau llawn amser Ynys Môn 13.37% yn is na'r ffigwr ar gyfer y Deyrnas Unedig ac 5.14% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan.

Mae gwahaniaeth mawr hefyd mewn incwm canolrif rhwng wardiau'r ddwy Sir - gyda'r uchaf yng Ngwynedd yn 2012 (Bethel £30,761) 82.9% yn uwch na'r isaf (Marchog £16,817). Yn Ynys Môn, roedd y ward uchaf (Cwm Cadnant £33,543) 100.4% yn uwch na'r ward isaf (Morawelon £ 16,739).

**Busnes a Chyflogwyr**

Yn 2012, roedd 6,305 o fentrau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac / neu ar gyfer y cynllun Talu wrth Ennill yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynrychioli 5.6% o'r holl fentrau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac / neu ar gyfer y Cynllun Talu wrth Ennill yng Nghymru. Roedd y gyfran uchaf o'r mentrau hyn (19.7%) yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, sy'n dangos pwysigrwydd y sector cynradd i'r Sir. Yn ystod yr un cyfnod yn Ynys Môn, roedd 2,865 o fentrau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac / neu ar gyfer y cynllun Talu wrth Ennill, sy'n cynrychioli 2.7% o'r holl fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac / neu ar gyfer y cynllun Talu wrth Ennill yng Nghymru. Roedd y gyfran uchaf o'r mentrau hyn (22.0%) yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, sy'n dangos pwysigrwydd y sector cynradd i'r ddwy Sir.
Un nodwedd o economi Gwynedd ac Ynys Môn yw ei dibyniaeth ar ystod fechan o sectorau, gyda rhai ohonynt (e.e. twristiaeth) yn dymhorol a chyda lefelau cyflog isel.

**Twristiaeth**

Yn ôl ffigyrau Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM), roedd y sector twristiaeth yn werth £895 miliwn i economi Gwynedd yn ystod 2011/12, sy'n gynnydd oddi ar ffigyrau 2010/11 o £778 miliwn. Yn Ynys Môn yn ystod 2012, roedd y sector twristiaeth yn werth £237.8 miliwn i'r economi, sy'n ostyngiad oddi ar ffigyrau 2011 o £259.1 miliwn.

**Tlodi**

Y trothwy a ddefnyddir amlaf ar gyfer tlodi cymharol yw bod incwm aelwyd 60% neu lai o ganolrif incwm aelwydydd Prydain yn y flwyddyn honno.

DRAFT

[4] Arolwg Busnes Gwynedd, Hanner cyntaf ac ail hanner 2010-11 a 2011/12, Cyngor Gwynedd
[5] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Oriau ac Enillion Blynyddol, 2011

Roedd bron i ddwy aelwyd ym mhob pump (39.1%) yng Ngwynedd yn byw mewn tlodi cymharol yn 2012 (o'i gymharu â 35.5% yn 2011). Yn Ynys Môn, roedd 36.6% o'r aelwydydd yn byw mewn tlodi cymharol yn 2012 (o'i gymharu â 32.8% yn 2011). Mae'r canrannau hyn yn cymharu â chanran o 35.2% yng Nghymru yn 2012 (a 32.4% yn 2011), a chyda chanran o 30.8% ym Mhrydain Fawr yn ystod 2012 (a 27. 2% yn ystod 2011).

**Pobl Ifanc**

Yng Ngwynedd yn 2012, nid oedd 3.0% (30) o ddisgyblion o'r oedran i fod ym mlwyddyn 11 mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), y 6ed cyfradd isaf yng Nghymru, a 0.6 pwynt canran yn is na'r hyn a welwyd yn 2011. Ar gyfer yr un cyfnod yn Ynys Môn, nid oedd 2.4% (17) o ddisgyblion o'r oedran i fod ym mlwyddyn 11 mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), y 4edd gyfradd isaf yng Nghymru.

Nid oedd 2% (9) o ddisgyblion o'r oedran i fod ym mlwyddyn 13 mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yng Ngwynedd yn 2012, y 4edd gyfradd isaf yng Nghymru ond sy'n dangos cynnydd o 0.7 pwynt canran ers 2011. Yn Ynys Môn, nid oedd 5.3% (17) o ddisgyblion o'r oedran i fod ym mlwyddyn 13 mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), y 9fed gyfradd isaf yng Nghymru gyda chynnydd o 1.5 pwynt canran ers 2011[6].

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, ond rhwng 2001 a 2011 bu gostyngiad o 1.1% yn y niferoedd. Gall 57.2% o boblogaeth Ynys Môn siarad Cymraeg, ond bu gostyngiad o 0.8% rhwng 2001 a 2011.

Bu gostyngiad bychan hefyd yng Ngwynedd yn nifer yr ardaloedd lle'r oedd mwy na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - o 41 Ward Etholiadol i 40 yn 2011. Bu gostyngiad o 10 ward i 8 yn Ynys Môn.

**Allyriadau Carbon**

Bu cynnydd o 6.1% mewn allyriadau carbon deuocsid yng Ngwynedd ers 2005, a chan Wynedd y mae'r 8fed ffigwr isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru[7]. Yn Ynys Môn, bu gostyngiad o 34.8% mewn allyriadau carbon deuocsid ers 2005, a chan Ynys Môn y mae'r 7fed ffigwr isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Yn 2011, yr ôl troed carbon fesul pen o'r boblogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn oedd 7.5 tunnell ac ôl troed carbon Cymru gyfan fesul pen o'r boblogaeth oedd 9.5 tunnell. Mae ôl troed carbon Gwynedd yn gyfystyr â 3.1% o ffigwr Cymru gyfan, tra bod ôl troed carbon Ynys Môn yn gyfystyr ag 1.8% o ffigwr Cymru gyfan[8].

DRAFT

[6] Gyrfa Cymru
[7] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2010. Amcangyfrifon allyriadau CO2 Lleol a Rhanbarthol.
[8] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2010. Amcangyfrifon allyriadau CO2 Lleol a Rhanbarthol.

## Economi

- Bod pobl yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn creu economi fwy ffyniannus a chynaliadwy
- Bod manteision cysyniad yr Ynys Ynni yn cael eu huchafu ar gyfer pobl leol
- Bod twf busnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth yn cael ei annog

Economi gref yw'r sail i wneud Ynys Môn a Gwynedd yn llefydd mwy ffyniannus i fyw ynddynt. Dyna'r sail i sicrhau bod rhagor o swyddi o ansawdd uchel a'r sail i fynd i'r afael â materion difreintedd a thlodi sy'n flaenoriaethau o bwys yn y cynllun hwn

Fe wyddom na allwn wneud hyn ag anwybyddu ffactorau allanol, oherwydd gall newidiadau mewn polisi cenedlaethol a marchnadoedd byd-eang gael effaith enfawr yn lleol. Gallwn, fodd bynnag, sicrhau bod cymorth yn ei le yn lleol i roi'r cyfle gorau posibl inni ddenu buddsoddiad ac i roi'r cyfleoedd gorau posibl i fusnesau lleol lwyddo.

Mae gweithio gyda phartneriaid y tu allan i Ynys Môn a Gwynedd hefyd yn bwysig oherwydd y gallai cyfleoedd datblygu cenedlaethol a rhanbarthol ein helpu i wireddu ffyniant. Yr enghraifft amlycaf yw Rhaglen yr Ynys Ynni, cyfle unwaith mewn cenhedlaeth sydd â'r potensial i gyfrannu bron i £ 2.5 biliwn i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf, gan ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ei sgil.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Datblygu, cefnogi a gweithredu cysyniad yr Ynys Ynni

Manteisio ar gyfleoedd i gryfhau economi'r ardal
Gwella sgiliau'r boblogaeth er mwyn manteisio ar gyfleoedd economi'r dyfodol

Gwneud defnydd llawn o gyfleoedd cyllido i adfywio'r ardal

Parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth

Cefnogi ac annog cyfleoedd busnes a thwf cyflogaeth amrywiol

Datblygu sgiliau i gwrdd â gofynion cyflogwyr

Cynyddu nifer y gweithwyr sydd mewn prentisiaethau

Hyrwyddo delwedd a chryfderau penodol yr ardal

**Sut fyddwn ni'n gwybod os ydym wedi gwneud gwahaniaeth?**

**Bydd cynnydd mewn:**
Gwerth Ychwanegol Crynswth absoliwt o 10-13% yn uwch na lefelau 2008 erbyn 2025

Niferoedd ymwelwyr, o 3% y flwyddyn
Gweithgarwch economaidd
Cyflogaeth gyda 61% o'r boblogaeth gyfan yn gyflogedig
Cyfleoedd cyflogaeth
Busnesau newydd

**Bydd gostyngiad mewn:**

Cyfraddau diffyg twf yn yr economi
Ffigyrau diweithdra
Diweithdra ymhlith pobl ifanc
Diweithdra tymor hir
Nifer y bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith
Mudo ymysg pobl ifanc (16-24)

DRAFFT

## Addysg a Sgiliau

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**
**Bod gan bobl yr addysg a'r sgiliau allweddol i sicrhau cyflogaeth**

Mae gwella cyrhaeddiad addysgol a datblygu sgiliau ar gyfer y gweithle yn ffactorau llwyddiant critigol wrth gynorthwyo i gryfhau cymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Mae tystiolaeth glir fod pobl sydd mewn gwaith yn mwynhau gwell iechyd a chyrhaeddiad addysg a bod datblygu sgiliau yn gysylltiedig â gwell ffyniant.

Mae cael pobl i mewn i waith yn dibynnu ar greu swyddi ac ar sicrhau bod gan bobl leol y sgiliau i gystadlu yn y farchnad swyddi. System addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf yw'r sylfaen ar gyfer hyn.

Mae gennym ddau nod. Yn gyntaf, mae arnom eisiau helpu pobl i fynd i weithio eto a lleihau cyfraddau diweithdra ar draws yr ardal. Yn ail, mae arnom eisiau bod yn uchelgeisiol ac anelu i sicrhau rhagor o swyddi o ansawdd uchel yn yr ardal i alluogi pobl i gyflawni eu potensial.

Mae'r datblygiadau sy'n ymwneud â'r Ynys Ynni a Pharc Gwyddoniaeth Menai yn ddwy enghraifft lle mae potensial i sicrhau cyflogaeth lefel uchel, arbenigol ac mae arnom eisiau sicrhau mai pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae cael rhagor o bobl i mewn i waith yn broblem gymhleth nad yw'n dibynnu ar unrhyw un ateb. Mae'n rhaid bod gwaith i'w gael, mae angen i ni allu darparu addysg o'r radd flaenaf ac mae angen i bobl gymryd rhan a bod yn awyddus i gael eu cefnogi. Ond mae'n rhaid i ni gydnabod fod rhai ffactorau hanfodol nad oes modd i ni ddylanwadu arnynt, er enghraifft, y dirwasgiad byd-eang. Gallai'r ffactorau hyn fod ag effeithiau dramatig ar y canlyniadau y dymunwn eu gweld.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Gweithio gyda'n gilydd i wella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol mewn addysg a lleihau anghydraddoldebau trwy wneud y pethau canlynol:

Darparu cefnogaeth gydlynol i helpu gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd

Cyflwyno rhaglen i wella presenoldeb

Lleihau bylchau mewn presenoldeb a chyrhaeddiad ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed (yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal

Meithrin diwylliant o gyflawniad uchel a dyhead uchel mewn ysgolion, colegau a lleoliadau hyfforddi

Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu dull cydlynol sy'n gwneud yn siŵr fod pobl yn derbyn cymorth effeithiol wedi'i dargedu i gael gwaith ac i aros mewn gwaith, trwy, er enghraifft:

Darparu cyfleoedd i oedolion wella eu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd

Gweithio gyda cholegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant lleol i godi ymwybyddiaeth am gyrsiau a chefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion

Gwneud yn siŵr bod rhaglenni a chyrsiau i ddysgu sgiliau newydd yn rhan o lwybr cydlynol sy'n arwain at waith

Hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

Byddwn yn edrych ar yr wybodaeth ganlynol:

Canran (%) y bobl ifanc sy'n cyflawni trothwy lefel 2 (sy'n gyfwerth â 5 gradd A * - C)

Canran (%) y bobl ifanc sy'n cyflawni trothwy lefel 2 (sy'n gyfwerth â 5 gradd A * - C), sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Canran (%) y bobl ifanc sy'n cyflawni trothwy lefel 2 (sy'n gyfwerth â 5 gradd A * - C), sy'n derbyn gofal

Canran (%) y disgyblion yn niwedd Blwyddyn 6 sydd ag oedran darllen / sgôr rhifedd sy'n gyson â'u hoedran cronolegol / y lefel ddisgwyliedig, neu'n uwch na hynny (prawf statudol gofynnol o fis Mai 2013)

Cyfartaledd presenoldeb plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Canran (%) y bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith

Cyfradd cyflogaeth y rhai hynny sydd rhwng 16 a 64 oed

Canran (%) y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)

Canran (%) yr oedolion o oed gwaith heb unrhyw gymwysterau

DRAFFT

## Cefnogi Pobl mewn Angen Ariannol

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**
**Bod pobl mewn angen ariannol yn derbyn y gefnogaeth a'r cyngor cywir**

**Lleihau Tlodi:**
Un o'r heriau allweddol o'n blaenau yw sut orau i fynd i'r afael â thlodi a mynediad at ystod o wasanaethau cymorth. Mae heriau penodol o'n blaenau i fynd i'r afael â thlodi ar draws y gwahanol grwpiau oedran a mynediad at wasanaethau cymorth priodol.

Y 'Mesur Diwygio Lles' yw'r newid mwyaf i'r gyfundrefn les genedlaethol ers mwy na 60 mlynedd ac mae effaith y diwygio yn lleol yn bryder ac mae ffigyrau diweddar yn dangos bod traean y tenantiaid yr effeithir arnynt gan y newidiadau i daliadau lles, a elwir yn 'treth ystafelloedd gwely' yng Nghymru eisoes ag ôl-ddyledion rhent.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd targedu camau gweithredu nid yn unig ar draws y grwpiau oedran gwahanol, ond hefyd tuag at anghenion gwahanol grwpiau yn y gymdeithas sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth. Mae hynny'n cwmpasu ystod o faterion gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â thlodi a'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef pobl yn cam-fanteisio arnynt e.e. masnachwyr twyllodrus. Mae'r newidiadau cyfredol o ran Diwygio'r Gyfundrefn Les yn rhoi llawer o heriau i'r asiantaethau perthnasol.

Mae'r papur hwn yn cynnig gwneud cysylltiad â gwasanaethau a fydd yn helpu pobl i ddianc rhag tlodi tanwydd drwy sicrhau bod gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni yn rhan annatod o'r cyngor a ddarperir gan staff. Yn olaf, bydd hyrwyddo cynhwysiant digidol yn rhoi mynediad at gyfrifon tanwydd, siopa a nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr rhatach i ragor o bobl, ac yn hwyluso eu hawliadau am fudd-daliadau'r wladwriaeth.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd yn y ddwy sir i leihau tlodi a nifer y rhai sydd wedi eu heithrio'n ariannol, fodd bynnag, mae diffyg:

- cydlyniad;
- prosesau effeithiol i weithio ar y cyd;
- ymwybyddiaeth o arfer da a diffyg o ran integreiddio'r arfer hwnnw yn rhan o waith staff rheng flaen;

Y canlyniad yw bod bwlch cynhwysedd a diffyg cysondeb.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cynigir bod Grŵp Cynhwysiant Ariannol a Grŵp Gwrth Dlodi yn cael eu sefydlu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn i ymgysylltu â darparwyr sy'n arbenigo yn y maes hwn ac i ddatblygu cynigion i'w cynnwys yn y Cynllun Integredig Sengl. Cynigir y gallai'r grŵp:

- ymgymryd ag ymarfer mapio i ddynodi'r gwasanaethau sydd ar gael sy'n cefnogi cynhwysiant ariannol;
- datblygu dulliau i sicrhau bod camau gweithredu sy’n ymwneud â chynhwysiant ariannol a gwrthdlodi yn cael eu hymgorffori mewn gwasanaethau, cynlluniau gweithredol a chanllawiau i staff
- dynodi'r gwasanaethau hynny lle bydd staff a phobl yn elwa fwyaf o gael hyfforddiant ymwybyddiaeth, e.e. Adrannau Refeniw a Budd-daliadau, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Chymdeithasau Tai, Teuluoedd yn Gyntaf a darparwyr Cefnogi Pobl;
- cynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol.

Bydd y prosiect hwn yn gwella gwaith a wneir ar y cyd ac yn cael effaith ar ddarparwyr a rhwydweithiau presennol sy’n gweithio ym maes cynhwysiant ariannol a gwrthdlodi gan eu cynnwys fel budd-ddeiliaid allweddol yn y gwaith o wireddu’r Cynllun Integredig Sengl ac o sicrhau bod y materion hynny’n cael eu hystyried ac yn cael sylw gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Galluogi trigolion i gael mynediad at gyngor ynglŷn â materion ariannol a sicrhau bod y rhai hynny sy'n gymwys yn gallu cael mynediad at ystod lawn y budd-daliadau a’r gwasanaethau i osgoi tlodi
- Galluogi trigolion i gael mynediad at gyfrifiaduron i fynd ar-lein a gwneud y mwyaf o dechnoleg ddigidol trwy weithio gyda'n gilydd i annog a galluogi trigolion i fagu hyder a’r sgiliau sydd eu hangen
- Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i hwyluso mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau ariannol fforddiadwy
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o fentrau effeithlonrwydd ynni ynghyd â gwasanaethau priodol sy’n cynghori ynglŷn ag ynni i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i leihau effaith debygol tlodi tanwydd

**Sut fyddwn ni'n gwybod os ydym wedi gwneud gwahaniaeth?**

**Bydd cynnydd mewn:**

- Nifer y gweithwyr rheng flaen sydd wedi'u hyfforddi i roi cyngor ynglŷn â chynhwysiant ariannol
- Gweithgarwch economaidd
- Nifer yr hawlwyr cymwys sy’n cael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau

**Bydd gostyngiad mewn:**

- Sancsiynau Tai
- Dibyniaeth ar fanciau bwyd
- Nifer yr hysbysiadau i droi pobl allan o'u tai a gyhoeddwyd

DRAFFT

## Cartrefi a Chymunedau

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**

**Bod pobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn byw mewn tai diogel priodol mewn cymunedau llewyrchus a chydlynol**

Cymuned gynaliadwy yw cymuned y mae pobl eisiau byw ynddi, lle mae cartrefi dymunol ac amgylchedd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion y presennol a'r dyfodol, gan gynnwys plant. Mae'n darparu ansawdd bywyd uchel ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol. Mae cymuned lewyrchus yn gymuned gynhwysol a chydlynol lle mae pobl yn chwarae rhan weithredol wrth weithio gydag eraill i fynd i'r afael â materion lleol megis addysg, diogelwch, cyflogaeth ac iechyd.

Mae byw mewn amgylchedd dymunol, lle mae digon o fannau cymunedol i chwarae, i gyfarfod ac i ddatblygu cysylltiadau cymunedol yn bwysig ar gyfer lles corfforol a meddyliol pobl. Mae ansawdd tai ac isadeiledd, yn arbennig, yn ddau beth sydd wedi cael eu cysylltu â phrofiadau cymdeithasol ac iechyd mewn ardal. Er enghraifft, byddai cymunedau lle mae nifer uchel o gartrefi a busnesau gweigion, lle nad oes llawer o bethau i'w gwneud a dim llawer o lefydd chwarae yn debygol o weld rhagor o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gamddefnyddio sylweddau ac o fod â chyfran uwch o bobl sy'n dioddef o ran salwch meddwl a lles emosiynol.

Mae'r effaith y mae cartref person yn ei gael ar iechyd, lles a hyd yn oed cyrhaeddiad addysgol y person hwnnw hefyd yn hysbys. Os nad yw tŷ'n cadw'r sawl sy'n byw ynddo yn ddiogel, yn gynnes ac yn sych, gall achosi neu waethygu rhai o'r cyflyrau iechyd mwyaf cyffredin, megis problemau iechyd cylchredol, iechyd resbiradol ac iechyd meddwl. Os nad yw tai yn addas gall achosi rhwystrau i annibyniaeth, a gall greu peryglon, megis baglu a chwympo.

Mae darparu tai sy'n addas ac o faint priodol, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn, pobl ifanc a phobl anabl, yn gallu lleihau'r pwysau sydd ar wasanaethau iechyd, a rhoi gwell ansawdd bywyd i bobl ac adeiladu sylfaen bwysig i bobl ifanc gael dyfu, dysgu a pherfformio'n academaidd.

Mae cydlynant cymunedol yn hanfodol i sicrhau bod perthynas dda rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, lle rhoir gwerth ar amrywiaeth, a lle mae unigolion yn rhannu ymdeimlad o berthyn ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud eu hardal yn lle gwell. Gellir hyrwyddo hyn trwy wneud gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau ac yn gwella'r berthynas rhwng grwpiau oedran gwahanol y gallai fod nemor ddim cysylltiad rhyngddynt. Trwy rannu sgiliau, profiadau a syniadau gall y naill genhedlaeth feithrin gwell dealltwriaeth o'r llall.

Rydym wedi llunio Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd sy'n manylu sut y byddwn yn cydbwyso materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gwrdd ag anghenion y bobl hynny sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag Ynys Môn a Gwynedd. Mae cynaliadwyedd yn egwyddor ganolog ohono, ac mae'n nodi sut y byddwn yn defnyddio tir ar gyfer tai newydd, cyflogaeth a safleoedd manwerthu.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Cynyddu'r cyflenwad - darparu tai sy'n fwy fforddiadwy, yn fwy priodol ar gyfer tueddiadau demograffig sy'n newid, gan wneud gwell defnydd o'n perthynas â'r sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion cynyddol, a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd

Ansawdd a gwelliant - gwella ansawdd llety sector preifat

Lliniaru effaith diwygio'r gyfundrefn les - gwrthdlodi, mynd i'r afael ag anghenion sy'n amlygu eu hunain gogyfer â llety llai neu lety a rennir

Gweithio ar y cyd gyda chymunedau i gyflawni camau gweithredu o ran adfywio tai ac adfywio cymunedol; gan gynnwys cael pobl i fyw o'r newydd mewn eiddo gwag mewn ardaloedd a dargedwyd a datblygu mannau cyhoeddus sy'n ddiogel, yn ddeniadol ac sy'n annog rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniad cymunedol.

Galluogi cyflenwad o dai gyda chefnogaeth sy'n ymateb i anghenion grwpiau dynodedig sy'n agored i niwed.

Ystyried iechyd a datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu pob datblygiad cynllunio, polisi a strategaeth i annog a hyrwyddo amgylcheddau ac ymddygiad iach a chynaliadwy.

Rhoi cefnogaeth i gymunedau ddod yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, drwy fod yn fwy effeithlon o ran ynni, drwy gynhyrchu llai o wastraff a defnyddio llai o adnoddau naturiol.

**Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?**

Er mwyn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth o ran cefnogi pobl i fynd i'r afael â'u hanghenion tai ac i fyw mewn cymunedau cynaliadwy a llewyrchus byddwn yn edrych ar yr wybodaeth ganlynol:

Nifer yr eiddo gwag

Yr angen am dai fforddiadwy.

Nifer yr unedau tai (fforddiadwy a marchnad) a ddatblygwyd fesul blwyddyn.

Canran (%) yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â glendid eu cymuned

Canran (%) yr ymatebwyr sy'n credu bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol

## Yr Iaith Gymraeg

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**

**Bod yr Iaith Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd ac Ynys Môn**

**Cefndir**
Yn ôl y Cyfrifiad 2011, gall 65.4% (77,000) o boblogaeth Gwynedd a 57.2% (38,000) o boblogaeth Ynys Môn siarad Cymraeg. Ar wahân i un ward yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn yw'r unig siroedd ledled Cymru sydd ag ardaloedd lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011.

Mae ymrwymiad cyrff y sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio fel y gwelir yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, ac yn y ffordd y caiff y Cynlluniau Iaith hynny eu gweithredu.

Yn 2008, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ymrwymodd yr holl gyrff sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Ngwynedd (ac Ynys Môn) i Siarter Iaith Gymraeg Gwynedd, gyda'r nod o ddarparu safon gyson o wasanaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Ngwynedd.

Daw gofynion statudol newydd yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a bydd angen cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg pan gânt eu cyhoeddi

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Cynyddu a safoni darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth
Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
Cynyddu nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg

Sefydlu gwaelodlin ar gyfer y nifer a'r math o swyddi o fewn y sector cyhoeddus sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg a Saesneg. Yn seiliedig ar waelodlin y data, creu cynllun peilot i ddatblygu gweithleoedd dwyieithog i'w weithredu yn 2014/15 fel rhan o Gynigion Cyflawni Cynllun Strategol y Cyngor (Cynghorau) ar gyfer 2014-2017.

Cynyddu a chysoni nifer ac ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg
Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
Cynyddu nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg

DRAFT

## Pobl Gwynedd ac Ynys Môn yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy

**Beth mae arnom ni eisiau ei gyflawni?**

- **Hyrwyddo a chynnal ein hamgylchedd naturiol**
- **Lleihau allyriadau carbon**
- **Ymateb i heriau newid hinsawdd mewn modd effeithiol**

Byddwn yn parhau i weithio ar brosiect lleihau carbon Gwynedd ac yn ehangu'r prosiect dros y ddwy sir, gan weithio gyda'n gilydd i leihau ôl troed carbon y partneriaid cyhoeddus o ran ynni o adeiladau, trafnidiaeth a gwastraff.
Byddwn yn gweithio tuag at leihau ôl troed carbon partneriaid y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

- Ynni ac eiddo
- Cludiant
- Gwastraff - anelu at leihau a monitro cynnydd

Dangos ein bod yn darparu cyfleoedd i unigolion a chymunedau gael mynediad at wybodaeth a chyngor ynglŷn â lleihau ôl troed carbon yn y sector cymunedol.

Byddwn yn hyrwyddo tyfu bwyd yn lleol
Byddwn yn sicrhau bod gan y prif sefydliadau cyhoeddus gynlluniau yn eu lle er mwyn lleihau teithio neu er mwyn teithio yn defnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy

DRAFFT

**Creu'r Cysylltiadau**

***Cynllun Ymgysylltu***

Mae ymgysylltu â phobl Gwynedd ac Ynys Môn yn hanfodol ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ymrwymo i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Cyfranogaeth Cymru.

Ein nod:

1. Gweithio ar y cyd wrth ymgysylltu er mwyn gwella gwasanaethau i bobl Ynys Môn a Gwynedd
2. Ymgysylltu â'r cyhoedd a chyda phartneriaid o ran gwasanaethau'r ardal mewn modd amserol a pherthnasol
3. Cyfathrebu mewn modd dealladwy ac effeithiol, gan egluro a gwrando'n dda.
4. Ceisio gwella sut rydym yn ymgysylltu'n barhaus.

**Beth yw'r Cynllun?**

Yn ymarferol mae'n golygu ymgysylltu ar y cyd yn y meysydd canlynol:

Strategaeth Gymunedol
Iechyd a Lles
Diogelwch Cymunedol
Plant a Phobl Ifanc
Prosiectau a gweithgareddau eraill Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd
Cymunedau'n Gyntaf
Lleisiau Lleol

**Beth mae hyn yn ei olygu?**

- Sicrhau bod trefniadau ar y cyd yn eu lle er mwyn cydweithio wrth ymgysylltu yn y meysydd hyn
- Datblygu ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar y cyd
- Rhannu adnoddau, gwybodaeth a chanlyniadau'r gweithgareddau ymgysylltu gyda sefydliadau partner a chydag eraill
- Bod yn fwy cyson wrth ymgysylltu a sicrhau gwell defnydd o adnoddau
- Rhoi cyfleoedd i gymunedau'r ardal fynegi barn, gan gynnwys cymunedau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu.
- Sefydlu fframwaith i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Gweithredu'r amcanion:

DRAFFT

Sefydlu rhaglen flynyddol ar gyfer gwaith ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Sefydlu rhwydwaith ymgysylltu ar gyfer partneriaid y BGLl i ddatblygu'r cynllun ymgysylltu
- Defnyddio hwyluswyr wedi eu hyfforddi
- Sefydlu gwefan fel y gall Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn rannu gwybodaeth ac er mwyn bod yn greiddiol i'r broses ymgysylltu ar gyfer partneriaid a thrigolion yr ardal
- Bod yn agored am waith partneriaethol Gwynedd ac Ynys Môn
- Ymgysylltu a gwrando ar farn partneriaid a thrigolion yr ardal
- Ymdrechu i wella'r prosesau ymgysylltu yn barhaus.
- Adrodd ac esbonio datblygiadau perthnasol mewn dull cyson, dealladwy a pherthnasol
- Cyfathrebu effeithiol

Ein nod yw ceisio ymgysylltu ar y cyd pan fo hynny'n ymarferol - gyda'r nod o leihau dyblygu a gwella'r broses ymgysylltu hefyd. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ynglŷn â gwaith y bartneriaeth. Cynhelir Adolygiad o'r Cynllun Integredig yn flynyddol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

***Cynllun Gwybodaeth***

Mae prif wasanaethau cyhoeddus yr ardal yn casglu llawer o wybodaeth – yn ystadegau ar iechyd, trosedd, addysg ac ati

Er mwyn sefydlu strategaeth wybodaeth effeithiol mae angen i bartneriaid ymrwymo i rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ogystal â gyda'i gilydd.

Mae angen cydlynu'n well sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i dosbarthu, a bod pob aelod o'r Bwrdd yn cytuno i ddatblygu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth, a bod swyddogion ymchwil a gwybodaeth y sefydliadau partner yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'i gilydd i rannu gwybodaeth.

Mae angen dadansoddi'r wybodaeth hon – gan edrych ar ddangosyddion allweddol ac ar ddatblygiadau dros y tymor hir. Dylai hyn fod yn rhan o adolygiad (blynyddol) rheolaidd o flaenoriaethau'r cynllun integredig

Rhannu Gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth ynglŷn â gwaith y Bartneriaeth yn hanfodol ac yn gofyn am ymrwymiad i rwydweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rheolaidd

- Datblygu protocol ar y cyd i rannu gwybodaeth a dadansoddiadau
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y wefan sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r holl feysydd perthnasol.
- Cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am waith y bartneriaeth ar y wefan.

DRAFT

**Trefniadau Craffu**

Creffir ar waith y Bartneriaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'u trefniadau corfforaethol.

DRAFFT

Blaenraglen Pwyllgor Craffu Corfforaethol Medi 2013 – Awst 2014

| A | Eitem | Diweddariad/Disgrifiad |
|---|---|---|
| A1 | Y Cyngor a'r Cyhoedd – Ymgysylltu | - Cyflwynwyd argymhellion i'r Aelod Cabinet, Y Cynghorydd Ioan Thomas ym mis Medi 2013<br>- Mae'r Strategaeth Ymgysylltu newydd yn cael ei chyflwyno gan y Cynghorydd Dyfed Edwards i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2014 |
| A2 | Strategaeth Arbedion +<br>- effaith codi treth y Cyngor | - Cyflwynwyd argymhellion i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Hydref 2013<br>- Pwyllgor Craffu yn ystyried Adroddiad pellach ar 16 Ionawr 2014 |
| A3 | Cynllun Gwella/<br>Adroddiad Perfformiad | - Ystyriwyd materion Chwarter 1 yn Rhagfyr 2013<br>- Rhoddir ystyriaeth i faterion Chwarter 2 yn Chwefror 2014 |
| A4 | Partneriaethau a Chydweithio – Asesu Cynnydd | - Rhoddir ystyriaeth i'r Cynllun Integredig gydag Ynys Môn yng nghyfarfod 16 Ionawr 2014<br>- Partneriaethau eraill – wedi'i raglennu ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu Mawrth 2014 |
| A5 | Gwynedd Amdani – prynu trydan, nwy ac ati ar ran Cymunedau i gael gwell pris | - Cyflwynwyd argymhellion yn Rhagfyr 2013<br>- Argymhellion yn cael eu gweithredu. |
| A6 | Trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio | |
| A7 | Dangosydd Salwch | - Ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yng Nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd 2013.<br>- Gofynnwyd i'r Adran rannu'r wybodaeth yn flynyddol gyda holl aelodau'r Cyngor |
| A8 | Pobl wedi Ymddeol yn dod yn ôl fel Ymgynghorwyr | - Ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yng Nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd 2013.<br>- Gofynnwyd i'r Adran rannu'r wybodaeth yn flynyddol gyda holl aelodau'r Cyngor |
| A9 | Gweithlu'r Cyngor :<br>– Cadw Morâl y gweithwyr yn | - Ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yng Nghyfarfod y |

| | | |
|---|---|---|
| | uchel mewn cyfnod anodd<br>– Gweithio'n Hyblyg | Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd 2013<br>- Gofynnwyd i'r Adran rannu'r wybodaeth yn flynyddol gyda holl aelodau'r Cyngor |
| A10 | Cydweithio gydag Ynys Môn | - Wedi'i raglennu ar gyfer Cyfarfod mis Mawrth 2014 |
| A11 | Cynllun ôl-troed Carbon | |
| A12 | Cynllun Strategol 2013-17 | |
| A13 | Cofrestru ail gartrefi fel busnes | - Wedi'i raglennu ar gyfer Cyfarfod mis Mawrth 2014 |

7 Ionawr 2014